In terms of visitors and other people who attend hospitals, I think that we just have to have a vigilant attitude and point out quite calmly to people that dropping stuff all over the place is not acceptable. Hospitals are places of care and they are not to be abused. It used to thoroughly irritate me when I went down my hospital corridors and saw people dropping stuff all over the place. We have to be able to challenge that in a constructive way. It cannot add to the confidence that patients or visitors have in the care that we are able to provide if they come into an environment which to their mind looks uncared-for and not clean.

O ran ymwelwyr a phobl eraill sy'n ymweld ag ysbytai, credaf fod yn rhaid i ni feithrin agwedd wyliadwrus a dweud wrth bobl yn bwyllog nad yw gollwng eitemau ymhob man yn dderbyniol. Mae ysbytai yn lleoedd sy'n rhoi gofal ac ni ddylid eu camddefnyddio. Yr oedd yn arfer fy ngwylltio'n gacwn pan fyddwn yn cerdded i lawr coridorau ysbytai a gweld pobl yn gollwng eitemau ar y llawr. Mae'n rhaid i ni allu herio hynny mewn ffordd adeiladol. Ni all hyn ychwanegu at hyder cleifion neu ymwelwyr yn y gofal y gallwn ei ddarparu os ydynt yn dod i mewn i amgylchedd sy'n ymddangos yn ddiofal ac yn fudr iddynt.

[6] **Janet Davies:** When I hear you coughing as you just did, Mrs Lloyd, I sometimes think that you should be in hospital. [*Laughter*.]

[6] **Janet Davies:** Pan fyddaf yn eich clywed yn tagu fel y gwnaethoch yn awr, Mrs Lloyd, credaf weithiau y dylech fod yn yr ysbyty. [*Chwerthin*.]

The NHS in England has set up independent patient environment action teams to assess the quality of the hospital environment, including the cleanliness. Could you explain why there has not been any systematic review to assess the standards of cleanliness in hospitals in Wales? Maybe you are going to say that there has been now, but perhaps you could explain what the situation is.

Mae'r GIG yn Lloegr wedi sefydlu timau gweithredu amgylchedd y claf annibynnol i asesu ansawdd amgylchedd ysbytai, gan gynnwys glanweithdra. A allwch egluro pam nad oes adolygiad systematig wedi'i gynnal i asesu safonau glanweithdra mewn ysbytai yng Nghymru? Efallai eich bod am ddweud bod un ar waith yn awr, ond efallai y gallwch egluro'r sefyllfa i ni.

**Ms Lloyd:** The concept of the patient environment action teams in England was established as part of the NHS plan that it produced in June 2000. We did not adopt that immediately, as the Assembly Government was preparing its own plan for Wales. The importance of cleanliness and standards was highlighted in that report. That is why we have now produced our standards but, additionally, our community health councils were at the time engaged in some really valuable work in looking at the hospital environment. That has now been implemented. The baseline self-assessment of each trust was completed in May and our CHC colleagues will be inspecting each of the environments in September and October. So, we have done it slightly differently but in a parallel way in Wales, so that highlights how important cleanliness within an

**Ms Lloyd:** Sefydlwyd cysyniad y timau gweithredu amgylchedd y claf yn Lloegr yn rhan o'r cynllun GIG a luniwyd ganddo ym Mehefin 2000. Ni wnaethom fabwysiadu hwnnw'n syth, gan fod Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi ei gynllun ei hun ar gyfer Cymru. Rhoddwyd sylw i bwysigrwydd glanweithdra a safonau yn yr adroddiad hwnnw. Dyna pam ein bod bellach wedi cynhyrchu ein safonau ond, hefyd, yr oedd ein cynghorau iechyd cymuned ar y pryd yn cyflawni gwaith gwerthfawr iawn yn edrych ar amgylchedd ysbytai. Mae hwnnw ar waith bellach. Cwblhawyd hunan-asesiad llinell sylfaen pob ymddiriedolaeth ym mis Mai a bydd ein cydweithwyr CIC yn archwilio pob amgylchedd ym mis Medi a Hydref. Felly, yr ydym wedi'i wneud ychydig yn wahanol ond mewn ffordd gyffelyb yng Nghymru, ac mae hynny'n

environment is to us all. So we have done it slightly differently.

pwysleisio pa mor bwysig yw glanweithdra mewn amgylchedd i ni i gyd. Felly yr ydym wedi gwneud hyn ychydig yn wahanol.

[7] **Janet Davies:** Right, thank you. Val, you have some questions to ask?

[7] **Janet Davies:** Iawn, diolch. Val, mae gennych gwestiynau i'w gofyn?

[8] **Val Lloyd:** Ms Lloyd, you mentioned 'Improving Health in Wales' and the aim to introduce a number of specific measures, and you told us about the trust facilities forum. However, the Auditor General's report shows that progress has not been made on all aspects of the strategy. Could you tell us why progress has been so slow, considering that you yourself talked about the importance that we should place on hospital cleaning?

[8] **Val Lloyd:** Ms Lloyd, crybwyllasoch 'Gwella Iechyd yng Nghymru' a'r nod o gyflwyno nifer o fesurau penodol, a dywedasoch wrthym am fforwm cyfleusterau'r ymddiriedolaethau. Fodd bynnag, mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dangos na chafwyd cynnydd ar bob agwedd ar y strategaeth. A allwch ddweud wrthym pam fod y cynnydd wedi bod mor araf, o ystyried eich bod chi eich hun wedi siarad am bwysigrwydd glanhau ysbytai?

**Ms Lloyd:** I think that the standards have been delayed beyond that which we expected, and I think that this was largely because this was a highly complex area and we really needed to get them right. We also took the opportunity to engage properly with the service itself and to gain its commitment. Therefore the consultation period was extended to make sure that everyone had the opportunity to comment on these standards, and to comment on how applicable they would be and how they could be measured. Although I would have preferred to have done this a year ago, I think that it was really important that we gained a commitment from the service, and its views on how it could manage the establishment of standards and being measured against them. Also, we took the time to engage the CHCs fully because their patient environment teams and hospital inspection teams, and our work on the national standards, have to correlate and work together.

**Ms Lloyd:** Credaf fod y safonau wedi'u hoedi y tu hwnt i'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl, a chredaf fod hyn yn bennaf oherwydd bod hwn yn faes cymhleth iawn a bod angen cyflawni'r gwaith yn iawn. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i gydweithio'n agos â'r gwasanaeth ei hun ac i sicrhau ei ymrwymiad. Felly ehangwyd y cyfnod ymgynghori i sicrhau bod gan bawb y cyfle i roi sylwadau ar y safonau hyn, ac i roi sylwadau ar ba mor gymwys fyddent a sut y gellid eu mesur. Er y byddwn wedi dewis gwneud hyn flwyddyn yn ôl, credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod wedi sicrhau ymrwymiad y gwasanaeth, a'i safbwyntiau ar sut y gallai reoli'r gwaith o sefydlu safonau a chael ei fesur yn eu herbyn. Hefyd, cymerwyd yr amser i gynnwys y CIC yn llawn oherwydd bod yn rhaid i'w timau sy'n ymdrin ag amgylchedd y claf a'u timau archwilio ysbytai, a'n gwaith ar y safonau cenedlaethol, gydberthyn a gweithio gyda'i gilydd.

So I apologise for the slowness in getting there, but I think that the finished product and the outcome should be more sustainable within the service.

Felly ymddiheuraf ein bod wedi cymryd ein hamser, ond credaf y bydd y cynnyrch gorffenedig a'r canlyniad yn fwy cynaliadwy o fewn y gwasanaeth.

[9] **Val Lloyd:** Thank you. Could I ask a follow-up question? You have given some indication of the steps that are being taken to ensure that the cleanliness strategy will be implemented. Are there any more steps, and could you tell us when you expect full

[9] **Val Lloyd:** Diolch. A gaf fi ofyn cwestiwn dilynol? Yr ydych wedi rhoi awgrymiadau am y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau y caiff y strategaeth lanweithdra ei gweithredu. A oes unrhyw gamau eraill, ac a allwch ddweud wrthym

compliance?

pryd yr ydych yn disgwyl cydymffurfio'n llawn?

**Ms Lloyd:** I am sorry, but I did not hear that. I got the 'full compliance', but missed the bit before it.

**Ms Lloyd:** Mae'n ddrwg gennyf, ond ni chlywais hynny. Fe glywais y 'cydymffurfio'n llawn', ond collais y rhan cyn hynny.

[10] **Val Lloyd:** You have given an outline of the steps that you took to ensure that the strategy would be implemented, but what other steps have been taken to ensure that it will be fully implemented?

[10] **Val Lloyd:** Yr ydych wedi rhoi amlinelliad o'r camau a gymerwyd gennych i sicrhau y byddai'r strategaeth yn cael ei gweithredu, ond pa gamau eraill sydd wedi'u cymryd i sicrhau y bydd yn cael ei gweithredu'n llawn?

**Ms Lloyd:** Well, it is now a statutory requirement and you will see on the balanced scorecards that we will be producing—giving the overarching performance of each organisation—that the environment is an important part of those. First, we must get a baseline survey. From that we will be able to work with each organisation over time to ensure full compliance and also an extension of the standards. It is important that we do not just adopt one set of standards forever because, as you know, the workload in hospitals is changing all the time. One of the problems has been that our cleaning standards and cleaning guidance have not kept up with that changing workload. So, we will have an agreement with each organisation about the progress that it can make—it is one of our continuous improvement targets—and we will also monitor whether or not it is complying with best practice and really spreading some of the good practice to ensure that cleaning standards can be improved.

**Ms Lloyd:** Wel, mae'n amod statudol bellach a byddwch yn gweld ar yr adroddiadau mesur perfformiad y byddwn yn eu cynhyrchu—o ystyried perfformiad cyffredin pob sefydliad—bod yr amgylchedd yn rhan bwysig o'r rheini. Yn gyntaf, mae'n rhaid i ni gael arolwg llinell sylfaen. O hwnnw byddwn yn gallu gweithio gyda phob sefydliad dros amser i sicrhau cydymffurfiaeth lawn ac ehangu'r safonau. Mae'n bwysig nad ydym yn mabwysiadu un gyfres o safonau'n unig am byth oherwydd, fel y gwyddoch, mae'r llwyth gwaith yn newid drwy'r amser mewn ysbytai. Un o'r problemau yw nad yw ein safonau glanhau a'n canllawiau glanhau wedi cadw i fyny â'r llwyth gwaith newidiol hwnnw. Felly, byddwn yn cytuno â phob sefydliad ar y cynnydd y gall ei wneud—mae'n un o'n targedau gwella parhaus—a byddwn hefyd yn monitro a yw'n cydymffurfio â'r arferion gorau ai peidio ac a yw'n lledaenu rhywfaint o'r arferion da i sicrhau y gellir gwella safonau glanhau.

[11] **Janet Davies:** Okay. Denise, you have some questions to ask?

[11] **Janet Davies:** Iawn. Denise, mae gennych gwestiynau i'w gofyn?

[12] **Denise Idris Jones:** The all-Wales facilities group has three objectives: developing definitions of environmental cleanliness, determining the interface between environmental cleanliness and infection control and developing national cleaning standards. What progress has been made on all three of the all-Wales facilities group's objectives?

[12] **Denise Idris Jones:** Mae gan y grŵp cyfleusterau Cymru gyfan dri amcan: datblygu diffiniadau o lanweithdra amgylcheddol, pennu'r berthynas rhwng glanweithdra amgylcheddol a rheoli heintiau a datblygu safonau glanhau cenedlaethol. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud gyda thri amcan y grŵp cyfleusterau Cymru gyfan?

**Ms Lloyd:** Well, on the cleaning standards, they will be produced in 10 days' time. So, I

**Ms Lloyd:** Wel, o ran y safonau glanhau, byddant yn cael eu cynhyrchu ymhen 10

think that that will be an important landmark for that. In terms of infection control, the facilities group has on it, and on all its subsequent sub-groups, infection control people, and they have outlined the ways in which infection control teams should be engaged more purposefully in cleaning standards: in overseeing cleaning standards, in looking at the equipment that is purchased to ensure that it can be cleaned, the frequency of cleaning and what should be done when equipment is moved around hospitals. It also recommends that the outcomes of the cleaning standards assessment is sent to the infection control committees so that they can give additional guidance. I think that the role of infection control teams, and the importance of that role, has been highlighted by the work that the trust facilities group has done so far. However, we expect the work of that group to be expanded further so that it encompasses portering, linen services and security, so that it wraps up the whole support teams that are contained within each of our organisations to ensure that really good practice is spread throughout those teams. So it has made a good start, but its work is by no means finished.

diwrnod. Felly, credaf y bydd hynny'n garreg filltir ar gyfer hynny. O ran rheoli heintiau, mae swyddogion rheoli heintiau ar y grŵp cyfleusterau, ac ar ei holl is-grwpiau dilynol, ac maent wedi amlinellu'r ffyrdd y dylai timau rheoli heintiau gyfrannu'n fwy penderfynol at safonau glanhau: drwy oruchwylio safonau glanhau, edrych ar y cyfarpar a brynir i sicrhau y gellir ei lanhau, pa mor aml y glanheir a beth ddylai gael ei wneud wrth symud cyfarpar o gwmpas ysbytai. Mae hefyd yn argymell bod canlyniadau'r asesiad safonau glanhau yn cael eu hanfon i'r pwyllgorau rheoli heintiau fel y gallant roi canllawiau ychwanegol. Credaf fod rôl timau rheoli heintiau, a phwysigrwydd y rôl honno, wedi'i hamlygu gan y gwaith y mae'r grŵp cyfleusterau ymddiriedolaethau wedi'i wneud hyd yma. Fodd bynnag, yr ydym yn disgwyl i waith y grŵp hwnnw gael ei ehangu ymhellach fel ei fod yn cynnwys dyletswyddau porthorion, gwasanaethau dillad gwely a diogelwch, er mwyn iddo gwmpasu'r holl dimau cymorth sydd wedi'u cynnwys ym mhob un o'n sefydliadau i sicrhau bod arferion da iawn yn cael eu lledaenu ledled y timau hynny. Felly mae wedi dechrau'n dda, ond nid yw ei waith wedi'i orffen ar unrhyw gyfrif.

[13] **Denise Idris Jones:** I have a follow-up question. You have said that this report will come out in 10 days' time and so you might have answered this. When will the work of the all-Wales facilities group be completed and introduced to the trusts?

[13] **Denise Idris Jones:** Mae gennyf gwestiwn dilynol. Yr ydych wedi dweud y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ymhen 10 diwrnod felly efallai eich bod wedi ateb hyn. Pryd fydd gwaith y grŵp cyfleusterau Cymru gyfan yn cael ei gyflawni a'i gyflwyno i'r ymddiriedolaethau?

**Ms Lloyd:** Well, as soon as the patient environment standards are produced, we will start to monitor them in our next round of quarterly reviews, performance reviews with trusts, so we will start that then. The facilities group will be wound up, but transmogrified into a facilities forum and it will start to take on this additional work to look at the other support services that underpin clinical care. So its work is by no means finished yet.

**Ms Lloyd:** Wel, cyn gynted ag y bydd safonau amgylchedd y claf yn cael eu cynhyrchu, byddwn yn dechrau eu monitro yn ein cylch nesaf o adolygiadau chwarterol, adolygiadau perfformio gydag ymddiriedolaethau, felly byddwn yn cychwyn ar hynny bryd hynny. Bydd y grŵp cyfleusterau'n dod i ben, a'i weddnewid yn fforwm cyfleusterau a bydd yn dechrau ymgymryd â'r gwaith ychwanegol hwn i edrych ar y gwasanaethau cymorth eraill sy'n ategu gofal clinigol. Felly nid yw ei waith wedi'i orffen eto ar unrhyw gyfrif.

[14] **Janet Davies:** Leighton, you have some questions to ask?

[14] **Janet Davies:** Leighton, mae gennych gwestiynau i'w gofyn?

[15] **Leighton Andrews:** Ms Lloyd, can I refer you to figure 1 on page 8 of the Auditor General's report? It sets out the cleaning costs per square metre in each hospital. There seems to be an extraordinary range of variations in the cost of cleaning per square metre between, for example, Neath General Hospital, at £46, and the University Hospital of Wales, at £14. Obviously, there is a balance between efficiency and assurance about standards in this, but could you give us your observations on why there are such wide variations?

[15] **Leighton Andrews:** Ms Lloyd, a gaf fi dynnu eich sylw at ffigur 1 ar dudalen 8 adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol? Mae'n nodi costau glanhau fesul metr sgwâr ym mhob ysbyty. Ymddengys bod amrywiaeth anhygoel rhwng costau glanhau fesul metr sgwâr rhwng, er enghraifft, Ysbyty Cyffredinol Castell-nedd, sef £46, ac Ysbyty Athrofaol Cymru, sef £14. Yn amlwg, mae cydbwysedd rhwng effeithlonrwydd a sicrwydd am safonau yn hyn, ond a allwch roi eich sylwadau ar y rhesymau dros amrywiaethau mor eang?

**Ms Lloyd:** Well, I think that there are a variety of reasons. Unfortunately, Neath General Hospital is now closed. I think that some of the factors include the priority that trust management has given to cleaning within the organisations, how old the buildings are—as we all know, the older the building, the more difficult they usually are to clean—how well they have been maintained and what sort of materials are being used. We have found in the past that there was a great surge in favour of having a more homely environment in many hospitals, and you found carpets being laid in acute general wards. They cost a great deal of money to clean, and they were not always satisfactorily cleaned. In fact, most of them were taken up. Therefore, I think that the equipment, the way in which the hospital is designed and the priority given by the management to the importance of maintaining that clean environment have all been factors in this variation. However, when we have undertaken our first round of environmental assessment reviews, then we might be able to unpick some of this in a more constructive way because we have not routinely monitored things such as the costs in the past.

**Ms Lloyd:** Wel, credaf fod pob math o resymau. Yn anffodus, mae Ysbyty Cyffredinol Castell-nedd wedi cau bellach. Credaf fod rhai o'r ffactorau'n cynnwys y flaenoriaeth y mae rheolwyr yr ymddiriedolaeth wedi'i rhoi i lanhau o fewn y sefydliadau, pa mor hen yw'r adeiladau—fel y gwyddom i gyd, po hynaf yw'r adeilad, yr anoddaf oll ydynt i'w glanhau fel arfer—pa mor dda y maent wedi'u cynnal a'u cadw a pha fath o ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio. Yr ydym wedi canfod yn y gorffennol bod cynnydd mawr o blaid sicrhau amgylchedd mwy cartrefol mewn sawl ysbyty, a gwelwyd carpedi'n cael eu gosod mewn wardiau cyffredinol aciwt. Maent yn ddrud iawn i'w glanhau, ac nid oeddent wastad yn cael eu glanhau'n foddhaol. Yn wir, yr oedd y mwyafrif ohonynt yn cael eu codi. Felly, credaf fod y cyfarpar, y ffordd y mae'r ysbyty'n cael ei gynllunio a'r flaenoriaeth a roddir gan y rheolwyr i bwysigrwydd cynnal a chadw'r amgylchedd glân hwnnw i gyd wedi bod yn ffactorau yn yr amrywiaeth hwn. Fodd bynnag, ar ôl i ni gyflawni'r cylch cyntaf o adolygiadau asesu amgylcheddol, efallai y byddwn yn gallu mynd i'r afael ag agweddau ar hyn yn fwy adeiladol oherwydd nad ydym wedi monitro pethau megis costau yn rheolaidd yn y gorffennol.

[16] **Leighton Andrews:** You made the point that a hospital's age is a factor. However, in looking at the table, Royal Glamorgan Hospital, which is a very new hospital, is in fact the most expensive after the now-closed Neath General Hospital. Many of my constituents use this hospital regularly—at least, when the buses are

[16] **Leighton Andrews:** Gwnaethoch y pwynt bod oed ysbyty yn ffactor. Fodd bynnag, wrth edrych ar y tabl, Ysbyty Brenhinol Morgannwg, sy'n ysbyty newydd sbon, yw'r drutaf ar ôl Ysbyty Cyffredinol Castell-nedd, sydd wedi cau bellach. Mae nifer o'm hetholwyr yn defnyddio'r ysbyty hwn yn rheolaidd—o leiaf, pan fydd y

running. Is it possible that the reason why, its being a new hospital, it is so much more expensive is that—are you going to tell us that it is because the management has looked more closely at the costs? Is it because it has more recently looked at the costs? Do you have views on that?

bysiau'n rhedeg. A oes posibilrwydd mai'r rheswm pam, ac yntau'n ysbyty newydd, ei fod cymaint drutach yw—a ydych yn mynd i ddweud wrthym bod hyn oherwydd bod y rheolwyr wedi edrych ar y costau'n fwy manwl? A yw hyn oherwydd ei fod wedi edrych yn ddiweddar ar y costau? A oes gennych farn ar hynny?

**Ms Lloyd:** It is possible that the management places a high importance on maintaining a clean environment. However, until we undertake our review, I cannot assure you of an answer.

**Ms Lloyd:** Mae'n bosibl bod y rheolwyr yn rhoi'r pwys mwyaf ar gynnal a chadw amgylchedd glân. Fodd bynnag, tan i ni gyflawni ein hadolygiad, ni allaf roi ateb sicr i chi.

[17] **Leighton Andrews:** Okay. I think that we would want to see the results of that review, because the Royal Glamorgan figure is quite striking and that raises quite a lot of issues such as whether, because it is a new hospital, it has simply struck new contracts that have gone into the whole issue in more detail. That might be rather worrying in terms of the other hospitals. Would you accept that?

[17] **Leighton Andrews:** Iawn. Credaf y byddem am gael gweld canlyniadau'r adolygiad hwnnw, oherwydd bod ffigur Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn eithaf trawiadol ac mae hynny'n codi nifer o gwestiynau megis a yw wedi ymrwymo i nifer o gontractau newydd sydd wedi mynd i'r afael yn fwy trylwyr â'r mater yn ei gyfanrwydd oherwydd ei fod yn ysbyty newydd. Gallai hynny fod yn achos pryder o ran yr ysbytai eraill. A fyddech yn derbyn hynny?

**Ms Lloyd:** Yes. That is absolutely true. It has reduced its costs to £30 per square metre now. Nevertheless, that is one of the issues that we will take up with it and other hospitals.

**Ms Lloyd:** Byddwn. Mae hynny'n hollol wir. Mae wedi gostwng ei gostau i £30 fesul metr sgwâr bellach. Fodd bynnag, dyna un o'r materion y byddwn yn ei drafod gydag ef ac ysbytai eraill.

[18] **Leighton Andrews:** Obviously, a large proportion of the costs—over 90 per cent of the cleaning costs—are staff costs. Another factor in the report that is signalled to us is that there are clearly high staff vacancies, high staff turnover and high levels of sickness among staff. That cannot be doing much for the costs of the service. Do you think that it is possible to improve the cleanliness of hospitals without tackling some of those issues?

[18] **Leighton Andrews:** Yn amlwg, mae cyfran fawr o'r costau—dros 90 y cant o'r costau glanhau—yn gostau staff. Ffactor arall yn yr adroddiad sy'n dod i'n sylw yw bod llawer o swyddi gweigion, trosiant staff uchel a lefelau uchel o salwch ymhlith staff. Ni all hynny wneud llawer i gostau'r gwasanaeth. A ydych yn meddwl bod modd gwella glanweithdra ysbytai heb fynd i'r afael â rhai o'r materion hynny?

**Ms Lloyd:** No, we cannot. You will see in this report areas where trusts have looked very carefully at how they might maintain their cleaning staff. Traditionally, cleaning staff in both the private and the public sectors have had high turnover rates. However, some people—and this is mentioned later in the report—including me, are advocates of providing a sort of career path or multi-

**Ms Lloyd:** Na, ni allwn. Byddwch yn gweld yn yr adroddiad hwn feysydd lle y mae ymddiriedolaethau wedi edrych yn agos iawn ar sut y gallant gadw eu staff glanhau. Yn draddodiadol, bu cyfraddau trosiant uchel ymhlith staff glanhau yn y sector preifat a chyhoeddus. Fodd bynnag, mae rhai—ac mae hyn yn cael ei grybwyll yn ddiweddarach yn yr adroddiad—gan

skilling of the support-worker teams. There is certainly evidence that, if you do that, then you do have a workforce that is more stable, where recruitment can improve and retention is also improved. However, basically, until recruitment and retention are managed very effectively, and the absence through sickness that goes with that, then we are never going to improve the quality of this service.

gynnwys minnau, o blaid darparu rhyw fath o lwybr gyrfa neu gyfle aml-sgiliau i'r timau gweithwyr cymorth. Os ydych yn gwneud hynny mae tystiolaeth sicr bod gennych weithlu sy'n fwy sefydlog, lle gall recriwtio yn ogystal â chadw staff wella. Fodd bynnag, yn y bôn, tan y rheolir recriwtio a chadw staff yn effeithiol iawn, ynghyd â'r absenoldeb oherwydd salwch sy'n mynd law yn llaw â hynny, ni fyddwn byth yn gwella ansawdd y gwasanaeth hwn.

[19] **Leighton Andrews:** The figures do show that, I think, a quarter of the cleaning staff in Wales have been in post for less than six months. Now, it might be that if you improve the career structure, as you suggest, you might be able to improve retention, but do you not think that there is also a problem with recruitment? How can you attract and recruit domestic cleaning staff to the NHS in Wales?

[19] **Leighton Andrews:** Credaf fod y ffigurau'n dangos bod chwarter y staff glanhau yng Nghymru wedi bod yn eu swyddi am lai na chwe mis. Nawr, efallai pe baech yn gwella'r sdrwythur gyrfaoedd, fel yr awgrymasoch, efallai y byddai modd gwella'r cyfraddau cadw staff, ond onid ydych yn meddwl bod problem recriwtio hefyd? Sut y gallwch ddenu a recriwtio staff glanhau domestig i'r GIG yng Nghymru?

**Ms Lloyd:** I think that one of the issues is the importance that you place on having a clean environment. If individuals believe that they are doing a valuable job, then that increases the status of what they are doing and the importance of what they are doing for the whole after-clinical care of a patient. I think that it has been important that ward managers, ward sisters, and charge nurses are seen to be responsible for the whole of the clinical environment in which patients are cared for, and that the cleaning and domestic staff and other staff or support workers are really part of that team. In those hospitals where that has happened, you find that people really do want to come to work in such an environment and stay there. So I think that there are good examples that can be used throughout Wales to look at how we do retain and encourage people to come to work for us. I think that, generally in Wales, we have to become much more creative about ensuring that people understand that, within the health service, there is a vast variety of work that needs to be done to support patient care, and we in Wales, as part of our new recruitment strategy, which I am developing at the moment, have to look at how we actually get to the communities within which these units are placed, to encourage people who would not normally have put an NHS career—and in that I

**Ms Lloyd:** Credaf mai un o'r materion yw'r pwyslais yr ydych yn ei roi ar gael amgylchedd glân. Os yw unigolion yn credu eu bod yn gwneud gwaith a werthfawrogir, yna bydd hynny'n cynyddu statws yr hyn y maent yn ei wneud a phwysigrwydd yr hyn y maent yn ei wneud i holl ofal ôl-glinigol y claf. Credaf ei bod wedi bod yn bwysig dangos mai rheolwyr ward, prif nyrsys ward, a phrif weinyddwyr nyrsio sy'n gyfrifol am yr holl amgylchedd clinigol lle mae cleifion yn derbyn gofal, a bod y staff glanhau a domestig a staff eraill neu weithwyr cymorth yn rhan wirioneddol o'r tîm hwnnw. Yn yr ysbytai hynny lle mae hynny wedi digwydd, gwelwch fod pobl yn ysu am gael dod i weithio mewn amgylchedd o'r fath ac aros yno. Felly credaf fod enghreifftiau da y gellir eu defnyddio ledled Cymru i edrych ar sut yr ydym yn dal ein gafael ar bobl ac yn eu hannog i ddod i weithio i ni. Credaf, yn gyffredinol yng Nghymru, bod yn rhaid i ni fod yn llawer mwy creadigol ynghylch sicrhau bod pobl yn deall bod amrywiaeth helaeth o waith sydd angen ei wneud i gynnal gofal cleifion yn y gwasanaeth iechyd, a bod yn rhaid i ni yng Nghymru, fel rhan o'n strategaeth recriwtio newydd, yr wyf yn ei datblygu ar hyn o bryd, edrych ar sut yr ydym mewn gwirionedd yn cyrraedd y cymunedau lle mae'r unedau hyn wedi'u lleoli, i annog pobl na fyddai wedi dewis

include the cleaning staff—as a first priority, to come to work for us. The old methods have only worked spasmodically. I think that we have to look at very different ways of encouraging people to work for the health service.

gyrfa yn y GIG fel arfer—ac yr wyf yn cynnwys y staff glanhau—fel blaenoriaeth, i ddod i weithio i ni. Mae'r hen ddulliau wedi gweithio'n achlysurol yn unig. Credaf fod yn rhaid i ni edrych ar ffyrdd gwahanol iawn o annog pobl i weithio i'r gwasanaeth iechyd.

[20] **Leighton Andrews:** I am glad to see that you are developing a recruitment strategy in this, but are you confident that the measures that you are advocating are being properly received by the hospital trusts and taken seriously?

[20] **Leighton Andrews:** Yr wyf yn falch o weld eich bod yn datblygu strategaeth recriwtio ar gyfer hyn, ond a ydych yn hyderus bod y mesurau yr ydych yn eu hargymell yn cael eu croesawu'n iawn gan ymddiriedolaethau'r ysbytai ac yn cael eu hystyried o ddifrif?

**Ms Lloyd:** That is what we are discussing with the trusts at the moment. As the areas of good practice have been clearly outlined in this report, as the facilities forum will take those forward with a view to spreading that good practice, and as the trusts will be monitored against their adoption of good practice, then, hopefully, there will be more enlightenment among some of the trusts' management about the ways in which others, who have major problems like they have, have overcome those problems.

**Ms Lloyd:** Dyna'r hyn yr ydym yn ei drafod gyda'r ymddiriedolaethau ar hyn o bryd. Gan fod y meysydd arferion da wedi'u hamlinellu'n glir yn yr adroddiad hwn, wrth i'r fforwm cyfleusterau ddatblygu'r rhain gyda golwg ar ledaenu'r arferion da hynny, ac wrth i'r ymddiriedolaethau gael eu monitro yn ôl a ydynt wedi mabwysiadu arferion da, yna, gobeithio, y bydd gan rai o reolwyr yr ymddiriedolaethau ragor o wybodaeth am y ffyrdd y mae eraill, sydd â phroblemau difrifol hefyd, wedi goresgyn y problemau hynny.

[21] **Janet Davies:** Do you want to keep going, Leighton?

[21] **Janet Davies:** A ydych am barhau, Leighton?

[22] **Leighton Andrews:** I have one more question. You say that you hope that there will be more enlightenment, Ms Lloyd. That did not sound too confident to me.

[22] **Leighton Andrews:** Mae gennyf un cwestiwn arall. Yr ydych yn dweud eich bod yn gobeithio y bydd esboniad pellach, Ms Lloyd. Nid oedd hynny'n swnio'n rhy hyderus imi.

**Ms Lloyd:** Well, I am hopeful about most things, but if people are being performance managed against standards and against the adoption of best practice, it usually concentrates the mind a bit more, and we will be able to chart a map on how that good practice is really being implemented throughout Wales.

**Ms Lloyd:** Wel, yr wyf yn obeithiol am y rhan fwyaf o bethau, ond os y rheolir perfformiad pobl yn ôl safonau ac yn ôl mabwysiadu arferion gorau, mae'n hogi'r meddwl ychydig yn fwy nag arfer, a byddwn yn gallu llunio map i ddangos sut mae'r arferion gorau hyn yn cael eu gweithredu mewn gwirionedd ledled Cymru.

[23] **Janet Davies:** I will bring Alun in in a moment, but may I follow this up? I noticed in the report that there are relatively few hospitals with outside contractors doing the cleaning, contrary to what may be the general perception. Do you think that it would be more difficult to get a career path for support staff with outside contractors than it would

[23] **Janet Davies:** Caiff Alun gyfrannu yn y man, ond a gaf fi ddilyn y trywydd hwn? Sylwais yn yr adroddiad nad oes llawer o ysbytai yn defnyddio contractwyr allanol i wneud y gwaith glanhau, yn groes i'r gred gyffredinol. A ydych yn meddwl y byddai'n anoddach creu llwybr gyrfa i staff cymorth gyda chontractwyr allanol nag y byddai gyda

be with in-house cleaning?

**Ms Lloyd:** That would depend on how you contract for the work. If we were to specify that that was the sort of career path and that that was the sort of multi-skilling support worker that we required, then the standard requirement, whether or not it was provided in-house or externally, would be the standard requirement. I think that it is in our specification that we can sort that out.

[24] **Janet Davies:** Thank you. Alun, you have some questions to ask?

[25] **Alun Cairns:** My line of questioning follows the same sort of issue that the Cadeirydd has raised, Ms Lloyd. I was surprised that only four of the 17 hospitals that were investigated had used private sector contractors for their cleaning services. Are you able to tell us which ones they are?

**Ms Lloyd:** Yes, there is Ysbyty Gwynedd, Llandough Hospital, Singleton Hospital and Morriston Hospital.

[26] **Alun Cairns:** Sorry, that was Singleton and—?

**Ms Lloyd:** Morriston.

[27] **Alun Cairns:** Okay. What analysis have you made of the value for money that might or might not be drawn from private sector contractors in comparison to NHS-employed cleaners?

**Ms Lloyd:** The trust management has been charged with that matter over the past 20 years. As you will recall, the requirement to competitively test these sorts of services was introduced in around 1985. All trusts have been required to test competitively their cleaning, porter service and other support worker services since then. That requirement was loosened slightly in the 1990s, but nevertheless, every three to four years, they had to ensure that they were competitive. Therefore, the way in which some people have an in-house service and others have external contractors would have been scrutinised through a proper process. Sometimes, contracts were extended because

staff glanhau mewnol?

**Ms Lloyd:** Byddai hynny'n dibynnu ar sut y byddech yn contractio'r gwaith. Pe baem yn pennu mai dyna'r math o lwybr gyrfa ac mai dyna'r math o weithwyr cymorth aml-sgiliau yr oedd eu hangen arnom, yna'r gofyniad safonol, waeth a oedd yn cael ei ddarparu'n fewnol neu'n allanol, fyddai'r gofyniad safonol. Credaf fod ein manyleb yn nodi y gallwn drefnu hynny.

[24] **Janet Davies:** Diolch. Alun, mae gennych gwestiynau i'w gofyn?

[25] **Alun Cairns:** Mae fy nghwestiynau i'n mynd i'r afael â'r un math o faterion ag y mae'r Cadeirydd wedi'u trafod, Ms Lloyd. Fe'm synnwyd mai pedwar ysbyty'n unig o'r 17 a archwiliwyd a oedd wedi defnyddio contractwyr sector preifat ar gyfer y gwasanaethau glanhau. A allwch ddweud wrthym pa ysbytai ydynt?

**Ms Lloyd:** Gallaf, mae Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Llandoche, Ysbyty Singleton ac Ysbyty Treforys.

[26] **Alun Cairns:** Mae'n ddrwg gennyf, dywedasoch Singleton a—?

**Ms Lloyd:** Treforys.

[27] **Alun Cairns:** Iawn. Sut yr ydych wedi dadansoddi'r gwerth am arian a allai neu na allai fod wedi deillio yn sgîl defnyddio contractwyr sector preifat o'i gymharu â glanhawyr a gyflogir gan y GIG?

**Ms Lloyd:** Rheolwyr yr ymddiriedolaeth sydd wedi bod yn gyfrifol am hynny ers 20 mlynedd bellach. Fel y cofiwch, cyflwynwyd y gofyniad i brofi'r mathau hyn o wasanaethau'n gystadleuol tua 1985. Mae'n ofynnol i bob ymddiriedolaeth brofi'n gystadleuol ei gwasanaethau glanhau a phorthor a'i gwasanaethau gweithwyr cymorth eraill ers hynny. Llaciwyd y gofyniad hwn ychydig yn y 1990au, ond er hynny, pob tair i bedair blynedd, yr oedd yn rhaid iddynt sicrhau eu bod yn gystadleuol. Felly, byddai'r ffordd y mae gan rai wasanaeth mewnol ac eraill gontractwyr allanol wedi cael ei harchwilio drwy broses briodol. O bryd i'w gilydd, cafodd contractau

either there would be a change in the configuration of a hospital's services, or there would be a move to new premises. However, even when contracts were extended by, say, one to two years, as an expedient move, they still had to prove that they had been through that rigorous test.

eu hestyn oherwydd naill ai byddai gwasanaethau ysbyty yn cael eu hailwampio, neu byddai'n rhaid symud i adeiladau newydd. Fodd bynnag, hyd yn oed pan estynnwyd contractau o, dyweder, flwyddyn neu ddwy, fel cam priodol, yr oedd yn rhaid iddynt brofi eu bod wedi cyflawni'r prawf manwl hwnnw.

[28] **Alun Cairns:** Three of the four hospitals that you highlighted are below the average cost of cleaning as shown in the table in figure 1. What analysis has been made of the quality of cleaning at those three hospitals, or even at the four private sector hospitals, in comparison to the other 13, or 17—no, sorry, 13?

[28] **Alun Cairns:** Mae tri o'r pedwar ysbyty a amlygwyd gennych yn is na chyfartaledd y costau glanhau a nodir yn y tabl yn ffigur 1. Pa ddadansoddiad a wnaed o ansawdd glanhau y tri ysbyty hynny, neu hyd yn oed y pedwar ysbyty sector preifat, o'i gymharu â'r 13 arall, neu 17—na, mae'n ddrwg gennyf, 13?

**Ms Lloyd:** I cannot give you that information at the moment because that is very much total accountability for an operational issue within a trust.

**Ms Lloyd:** Ni allaf roi'r wybodaeth honno i chi ar hyn o bryd oherwydd bod ymddiriedolaethau'n gwbl atebol am faterion gweithredol.

[29] **Alun Cairns:** But do you not think—

[29] **Alun Cairns:** Ond onid ydych yn meddwl—

**Ms Lloyd:** They will have to have satisfied the test of competitive tendering, they will have had to have been satisfied that they were getting value for money and they will have had to have been satisfied that their hospitals were meeting the standards.

**Ms Lloyd:** Bydd yn rhaid iddynt fod wedi bodloni'r prawf tendro cystadleuol, bydd yn rhaid iddynt fod yn fodlon eu bod yn cael gwerth am arian a bydd yn rhaid iddynt fod yn fodlon bod eu hysbytai yn bodloni'r safonau.

[30] **Alun Cairns:** Bearing in mind the differences in cost that have been highlighted in those four, if the quality of cleaning by private sector contractors is as good as that of NHS employees, do you not think that a best practice analysis could be made in terms of disseminating either the value or the poor value that might be provided from those private sector contractors?

[30] **Alun Cairns:** O gofio'r gwahaniaethau mewn costau sydd wedi'u hamlygu yn y pedwar hynny, os yw ansawdd glanhau contractwyr sector preifat cystal ag ansawdd glanhau gweithwyr y GIG, onid ydych yn meddwl y gellid cynnal dadansoddiad o arferion gorau o ran dosbarthu naill ai'r gwerth neu'r diffyg gwerth y gellid ei ddarparu gan y contractwyr sector preifat hynny?

**Ms Lloyd:** Indeed. That is what we expect the forum to take forward for us. I would not differentiate between the private sector and the in-house service. It is the value for money of the whole of this system that is important.

**Ms Lloyd:** Digon gwir. Dyna'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl i'r fforwm ei ddatblygu i ni. Ni fyddwn yn gwahaniaethu rhwng y sector preifat a'r gwasanaeth mewnol. Gwerth am arian y system gyfan hon sy'n bwysig.

[31] **Alun Cairns:** My final question on this relates to paragraph 1.15, which mentions that one hospital had a turnover of 82 per cent in the nine months prior to the National

[31] **Alun Cairns:** Mae fy nghwestiwn olaf am hyn yn ymwneud â pharagraff 1.15, sy'n crybwyll bod gan un ysbyty drosiant o 82 y cant yn y naw mis cyn ymweliad ac

Audit Office visit and investigation. That is a staggering level of staff turnover. Has any analysis been made of whether that level is higher among private sector contractors than among in-house cleaners?

archwiliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae'r lefel hwnnw o drosiant staff yn anhygoel. A wnaed unrhyw ddadansoddiad i weld a yw'r lefel honno yn uwch ymhlith contractwyr sector preifat nag ymhlith glanhawyr mewnol?

**Ms Lloyd:** No. Again, that is something that the forum will take on board. It will be looking at the whole of the recruitment, retention and sickness levels in all of these services.

**Ms Lloyd:** Na. Eto, mae hynny'n rhywbeth y bydd y fforwm yn ei ystyried. Bydd yn edrych ar yr holl lefelau recriwtio, cadw staff a salwch yn yr holl wasanaethau hyn.

[32] **Janet Davies:** Thank you. Denise, you have some questions to ask?

[32] **Janet Davies:** Diolch. Denise, mae gennych gwestiynau i'w gofyn?

[33] **Denise Idris Jones:** Can you hear me, Ms Lloyd?

[33] **Denise Idris Jones:** A ydych yn gallu fy nghlywed, Ms Lloyd?

**Ms Lloyd:** Yes.

**Ms Lloyd:** Ydw.

[34] **Denise Idris Jones:** Good. If you turn to page 11 of the Auditor General's report, case study A shows an example of good practice from the University Hospital of Wales. To me, as a layperson, reading through this, it seems that this is quite achievable. If you look at the first example, which says that

[34] **Denise Idris Jones:** Da iawn. Pe baech yn troi i dudalen 11 adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, mae astudiaeth achos A yn dangos enghraifft o arferion da gan Ysbyty Athrofaol Cymru. I mi, fel person lleyg, wrth ddarllen drwy hwn, ymddengys bod hyn yn dra phosibl. Os edrychwch ar yr enghraifft gyntaf, sy'n dweud

'sickness cover is more manageable—a team of six can more easily and quickly cover the absence of one person'

'mae'n haws sicrhau bod gweithwyr ar gael pan fydd rhywun yn sâl—gall tîm o chwech wneud gwaith rhywun sy'n sâl yn haws ac yn gynt'

that obviously makes complete sense. Do you not think that we could carry out this good example in the other hospitals?

mae'n amlwg bod hynny'n gwneud synnwyr llwyr. Onid ydych yn meddwl y gallem weithredu'r enghraifft dda hon mewn ysbytai eraill?

**Ms Lloyd:** I do, yes.

**Ms Lloyd:** Ydw.

[35] **Denise Idris Jones:** Good. Top marks. Let us hope that we do so as soon as possible. Are there any further examples of good practice? I hope that there are in my constituency, but I do not know. Can you tell me that?

[35] **Denise Idris Jones:** Da iawn. Marciau llawn. Gobeithio y byddwn yn gwneud hynny cyn gynted â phosibl. A oes unrhyw enghreifftiau eraill o arferion da? Gobeithio bod rhai yn fy etholaeth i, ond nid wyf yn gwybod. A allwch ddweud hynny wrthyf?

**Ms Lloyd:** Well, the Princess of Wales Hospital has looked at a broader support-worker system. There are some hospitals that employ bed teams so that nurses do not have to clean the beds and so that there is a team responsible for the management of a bed,

**Ms Lloyd:** Wel, mae Ysbyty Tywysoges Cymru wedi edrych ar system gweithwyr cymorth ehangach. Mae rhai ysbytai yn defnyddio timau gwlâu fel nad yw nyrsys yn gorfod glanhau gwlâu ac fel bod tîm yn gyfrifol am reoli gwely, sydd wedi

which has released the nursing staff and also meant that there was a sort of better check on the cleanliness of beds as patients are discharged. However, the forum is collecting together all these areas of good practice to disseminate them. The Auditor General has helpfully highlighted many of them in the report. As part of the performance management first round, we will be looking to see how far these have been adopted throughout Wales. One of the things that we are not tremendously great at is ensuring that good practice is known from place to place. That is why I have put a high emphasis and high importance on ensuring that we do monitor good practice and make sure that everybody knows about it and is able to test and consider it.

rhyddhau'r staff nyrsio ac sydd hefyd yn golygu bod glanweithdra gwlâu yn cael ei wirio'n well pan fydd cleifion yn gadael yr ysbyty. Fodd bynnag, mae'r fforwm yn casglu'r holl feysydd hyn o arferion da at ei gilydd i'w lledaenu. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi amlygu llawer ohonynt yn yr adroddiad sy'n ddefnyddiol. Fel rhan o gylch cyntaf rheoli perfformiad, byddwn yn edrych i weld pa mor bell y mabwysiadwyd y rhain ledled Cymru. Mae sicrhau bod arferion da yn cael eu hadnabod o le i le yn un o'r pethau nad ydym yn eu gwneud yn dda iawn. Dyna pam fy mod wedi rhoi'r pwys mwyaf ar sicrhau ein bod yn monitro arferion da a sicrhau bod pawb yn gwybod am hynny ac yn gallu ei brofi a'i ystyried.

[36] **Janet Davies:** We will move on to paragraphs 2.2 to 2.4, which talk about there being no compulsory national minimum standards of hospital cleanliness. Figure 5 on page 14 shows a number of different cleaning standards across Wales. I do realise that you have not been in post for 25 years—

[36] **Janet Davies:** Symudwn ymlaen at baragraffau 2.2 i 2.4, sy'n trafod y ffaith nad oes safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer glanweithdra ysbytai. Mae ffigur 5 ar dudalen 14 yn dangos nifer o safonau glanhau gwahanol ledled Cymru. Sylweddolaf nad ydych wedi bod yn eich swydd ers 25 mlynedd—

[37] **Alun Cairns:** It may feel like it.

[37] **Alun Cairns:** Efallai ei fod yn teimlo felly.

**Ms Lloyd:** Sometimes. [*Laughter*.]

**Ms Lloyd:** Weithiau. [*Chwerthin*.]

[38] **Janet Davies:** Do you think that it was acceptable during all those years that there were no national minimum standards for cleaning? It was a long time to go without.

[38] **Janet Davies:** A ydych yn credu ei bod yn dderbyniol nad oedd safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer glanhau yn ystod yr holl flynyddoedd hynny? Yr oedd yn gyfnod hir i fod hebddynt.

**Ms Lloyd:** Well, there was guidance and there were standards. When I cast my mind back 25 years when I was setting some of these standards, there were minimum standards, which were known to people who were managing hospitals or clinics, against which they asked their cleaning staff to perform. However, I believe that the science and the research have become more stark and helpful about the types of cleaning service that you need. The numbers and the vulnerability of patients have increased and the whole work pace has increased within hospitals. They are dealing with a very different case mix of patients now than they were 20 years ago. I think that with

**Ms Lloyd:** Wel, yr oedd canllawiau ac yr oedd safonau. Wrth imi feddwl yn ôl 25 mlynedd pan oeddwn yn pennu rhai o'r safonau hyn, yr oedd safonau gofynnol, a oedd yn hysbys i bobl a oedd yn rheoli ysbytai neu glinigau, ac yr oedd yn rhaid i'w staff glanhau berfformio'n ôl y rhain. Fodd bynnag, credaf fod y wyddoniaeth a'r ymchwil wedi dod yn fwy amlwg a defnyddiol ynglŷn â'r mathau o wasanaethau glanhau sydd eu hangen arnoch. Mae niferoedd a gwendidau cleifion wedi cynyddu ac mae'r holl lwyth gwaith wedi cynyddu o fewn ysbytai. Maent yn delio â chymysgedd gwahanol iawn o gleifion yn awr o'i gymharu ag 20 mlynedd yn ôl.

everything—with the advent of more auditing of practice and the importance of a clean environment and very good hygiene—it has really come rightly to the fore now that we do have standards that will be adhered to and which we will be ensuring each of the organisations is adopting.

Credaf fod hynny â ynghyd â phopeth arall—gyda dyfodiad rhagor o archwilio arferion a phwysigrwydd amgylchedd glân a hylendid da iawn—mae'n hanfodol bwysig bellach bod gennym safonau i gadw atynt, y byddwn yn sicrhau bod yr holl sefydliadau yn eu mabwysiadu.

[39] **Janet Davies:** Right. When I look back rather more than 25 years, in the very old days, you had a situation whereby the ward sister was totally in control and the matron was coming around twice a day to make sure that everything was okay in every ward. To a large extent, that worked. It does seem to me that there was a gap in the middle where quite a lot of the organisation changed and it did not actually take on board the need for cleanliness in that change. I do not know whether you would agree; it looks to me as though perhaps you do agree with me on that. However, at the end of the day, the issue is what it is actually like on the wards, in the corridors and in the other departments. So, do you feel confident that the systems that are now being put into place are really going to make sure that hospitals are clean? I take on board your point about patients being much more fragile and much more ill when they are in hospital now than perhaps patients were 30 or 40 years ago.

[39] **Janet Davies:** Iawn. Wrth imi edrych yn ôl ymhellach na 25 mlynedd, ymhell i'r dyddiau a fu, yr hyn a oedd gennych oedd prif nyrs y ward â rheolaeth lwyr a'r metron yn ymweld ddwywaith y dydd i sicrhau bod popeth yn iawn ym mhob ward. I raddau helaeth, yr oedd hynny'n gweithio. Ymddengys i mi fod bwlch yn y canol lle y newidiodd llawer o'r sefydliad ac ni ystyriodd yr angen am lanweithdra yn y newid hwnnw mewn gwirionedd. Nid wyf yn gwybod a fyddech yn cytuno; ymddengys i mi eich bod efallai yn cytuno gyda mi ar hynny. Fodd bynnag, yn y pen draw, yr hyn sy'n bwysig yw'r sefyllfa wirioneddol ar y wardiau, yn y coridorau ac yn yr adrannau eraill. Felly, a ydych yn teimlo'n hyderus y bydd y systemau a weithredir ar hyn o bryd yn sicrhau bod yr ysbytai'n lân mewn gwirionedd? Yr wyf yn derbyn eich pwynt bod cleifion yn llawer mwy bregus ac yn llawer salach pan eu bod yn yr ysbyty bellach nag oedd cleifion 30 i 40 blynedd yn ôl efallai.

**Ms Lloyd:** Yes, I think that the prevalence of infection has really reached the top of the agenda for trust management now, because we know that it hardly increase patients' confidence when coming into hospitals, it certainly costs us more and patients have to stay in hospital longer. In a pressurised system, we want patients who are confident and who get better quickly so that we can release some of the capacity within the hospital. So with us all having infection control teams now, which are extremely good at advising us on best practice and how areas should be cleaned and what should happen with equipment, and with the audits that come through—because it might have looked clean 30 years ago but we did not audit it so we do not have the evidence—and also with the reinstitution, I think, of a ward-based culture where the ward manager has that renewed responsibility for the total environment in which patients are cared for,

**Ms Lloyd:** Ie, credaf fod cyffredinrwydd heintiau wedi cyrraedd brig agenda rheolwyr yr ymddiriedolaethau bellach, oherwydd ein bod yn gwybod nad yw dod i'r ysbyty yn cynyddu hyder cleifion, mae'r costau'n uwch i ni heb os ac mae'n rhaid i gleifion aros yn yr ysbyty am gyfnodau hirach. Mewn system dan bwysau, yr ydym eisiau cleifion sy'n hyderus ac sy'n gwella'n gyflym er mwyn i ni allu rhyddhau rhywfaint o gapasiti'r ysbyty. Felly gyda phawb â thimau rheoli heintiau erbyn hyn, sy'n hynod effeithiol o ran rhoi gwybod i ni am arferion da a sut y dylid glanhau gwahanol rannau a beth ddylai ddigwydd i'r cyfarpar, a chyda'r archwiliadau a gynhelir—oherwydd efallai eu bod wedi ymddangos yn lân 30 mlynedd yn ôl ond nid oeddynt yn cael eu harchwilio felly nid oes gennym y dystiolaeth—a hefyd, yn fy marn i, drwy ailsefydlu diwylliant sy'n seiliedig ar wardiau lle mae gan y rheolwr ward y cyfrifoldeb newydd hwnnw am yr

there should be a great improvement: there has to be a great improvement.

holl amgylchedd lle mae cleifion yn derbyn gofal, dylid gweld cynnydd sylweddol: mae'n rhaid bod cynnydd sylweddol.

[40] **Janet Davies:** Thank you. I have one last question before Val continues the questioning. In developing the single set of national minimum standards, will you be taking into account all the existing standards and taking the best from each of them?

[40] **Janet Davies:** Diolch. Mae gennyf un cwestiwn terfynol cyn i Val barhau â'r cwestiynau. Wrth ddatblygu'r gyfres unigol o safonau gofynnol cenedlaethol, a fyddwch yn ystyried yr holl safonau presennol a defnyddio'r gorau o bob un ohonynt?

**Ms Lloyd:** Yes. That is what we have done and that is why it has taken quite a long time to produce these standards, because we have been looking right across the UK and to some parts of Europe—some of the cleaning standards in Europe are very helpful—to bring together the very best. However, as I said, on the standards as they stand now, we will see how they fare in the first round of performance management. If they need adaptation, if they need improvement, they will be improved, and they will be updated regularly.

**Ms Lloyd:** Byddwn. Yr ydym wedi gwneud hynny a dyna pam ei bod wedi cymryd cryn amser i gynhyrchu'r safonau hyn, oherwydd ein bod wedi bod yn edrych ar y DU gyfan a rhannau o Ewrop—mae rhai o'r safonau glanhau yn Ewrop yn ddefnyddiol iawn—i ddod â'r safonau gorau ynghyd. Fodd bynnag, fel y dywedais, o ran y safonau ar eu ffurf bresennol, byddwn yn gweld sut y byddant yn llwyddo yn y cylch rheoli perfformiad cyntaf. Os oes angen eu haddasu, os oes angen eu gwella, byddant yn cael eu gwella, a'u diweddaru'n gyson.

[41] **Janet Davies:** Thank you. Val, you have some questions to ask?

[41] **Janet Davies:** Diolch. Val, mae gennych gwestiynau i'w gofyn?

[42] **Val Lloyd:** Yes, thank you, Chair. Mrs Lloyd, I know that the situation is going to change, but hospitals are currently free to choose their own minimum standards. However, when the National Audit Office visited 11 hospitals, it found that eight of the hospitals, by their own admission, were not achieving their own targets. Could you explain that, please?

[42] **Val Lloyd:** Oes, diolch, Gadeirydd. Mrs Lloyd, yr wyf yn gwybod y bydd y sefyllfa'n newid, ond mae gan ysbytai'r rhyddid i ddewis eu safonau gofynnol eu hunain ar hyn o bryd. Fodd bynnag, pan ymwelodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ag 11 ysbyty, canfyddodd nad oedd wyth o'r ysbytai, yn ôl eu cyfaddefiad eu hunain, yn bodloni eu targedau eu hunain. A allwch egluro hynny, os gwelwch yn dda?

**Ms Lloyd:** That, again, is a matter for the trust. If, whatever service it is, the trust management believes it is not meeting its standards, it is for the trust management to do something about it. Again, I think that that is down to the priority that is given to this area.

**Ms Lloyd:** Mae hynny, eto, yn fater i'r ymddiriedolaeth. Os yw rheolwyr yr ymddiriedolaeth, pa bynnag wasanaeth ydyw, yn credu nad yw'n bodloni ei safonau, cyfrifoldeb rheolwyr yr ymddiriedolaeth yw gwneud rhywbeth yn ei gylch. Eto, credaf mai'r flaenoriaeth a roddir i'r maes hwn sy'n gyfrifol am hynny.

[43] **Val Lloyd:** Yes, you made that clear earlier. So if hospitals are not reaching their own targets now, and bearing in mind your answer regarding the trusts, what guarantee can we have that they will meet the proposed national standards? How will you deal with trusts that continually fail to meet those

[43] **Val Lloyd:** Do, bu i chi bwysleisio'r pwynt hwnnw'n glir yn gynharach. Felly os nad yw ysbytai yn bodloni eu targedau eu hunain yn awr, ac o gofio eich ateb ynglŷn â'r ymddiriedolaethau, pa sicrwydd y gallwn ei gael y byddant yn bodloni'r safonau cenedlaethol arfaethedig? Sut y byddwch yn

standards, should they do so—although I hope they will not?

delio ag ymddiriedolaethau sy'n methu'n barhaus â bodloni'r safonau hynny, os mai dyna maent yn ei wneud—er fy mod yn gobeithio nad dyna sy'n digwydd?

**Ms Lloyd:** That will be part of the performance management. The regional offices that we have established will have the overall responsibility of ensuring that trusts are making continuous progress towards all the targets in the balanced scorecard. They will be working, and we will be working, with those organisations to overcome any barriers to improvement. Some places will be further away from the targets than others, but we will know exactly where they are and what their plans for improvement will be, and will help and encourage them to do that. Those who are incorrigible will be dealt with under the performance management system.

**Ms Lloyd:** Bydd hynny'n rhan o'r system rheoli perfformiad. Y swyddfeydd rhanbarthol a sefydlwyd gennym fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod ymddiriedolaethau yn gwneud cynnydd parhaus i fodloni'r holl dargedau ar yr adroddiad mesur perfformiad. Byddant hwy yn gweithio, a byddwn ni yn gweithio, gyda'r sefydliadau hynny i oresgyn unrhyw rwystrau i wella. Bydd rhai lleoedd yn bellach o'r targedau nag eraill, ond byddwn yn gwybod yr union sefyllfa a beth fydd eu cynlluniau ar gyfer gwella, a byddwn yn eu cynorthwyo a'u hannog i wneud hynny. Byddwn yn delio â'r rhai hynny nad ydynt wedi gwella dan y system rheoli perfformiad.

[44] **Val Lloyd:** Do you envisage that the national cleaning standards will allow for hospitals and trusts to benchmark their cleaning services?

[44] **Val Lloyd:** A ydych yn rhagweld y bydd y safonau glanhau cenedlaethol yn galluogi i ysbytai ac ymddiriedolaethau feincnodi eu gwasanaethau glanhau?

**Ms Lloyd:** Yes, and that is a very important thing. I have noticed in Wales that the chief executives are very proud of where they stand against the benchmark, and I think that that is a very helpful tool to ensure progress.

**Ms Lloyd:** Ydw, ac mae hynny'n rhywbeth pwysig iawn. Yr wyf wedi sylwi yng Nghymru bod y prif weithredwyr yn falch iawn o sut y maent yn cymharu â'r meincnod, a chredaf fod hwnnw'n ddull defnyddiol iawn i sicrhau cynnydd.

[45] **Val Lloyd:** So would you then consider that it would be beneficial to publish the results of the benchmarking?

[45] **Val Lloyd:** Felly a fyddech yn ystyried y byddai'n fuddiol cyhoeddi canlyniadau'r meincnodi?

**Ms Lloyd:** We expect to publish the whole of the balanced scorecard, which will include the benchmarking results, so that it will be clear to the community the standards that are being achieved by their organisations.

**Ms Lloyd:** Yr ydym yn disgwyl cyhoeddi'r adroddiad mesur perfformiad i gyd, a fydd yn cynnwys canlyniadau'r meincnodi, er mwyn sicrhau bod y safonau a fodlonir gan eu sefydliadau'n glir i'r gymuned.

[46] **Janet Davies:** Okay, thank you. Mick, you have some questions to ask.

[46] **Janet Davies:** Iawn, diolch. Mick, mae gennych gwestiynau i'w gofyn.

[47] **Mick Bates:** I would like to refer you to paragraph 2.4 on page 14. It is interesting to note that only three hospitals involve their infection control teams in devising their own cleaning standards. Is this not putting patient health and wellbeing at risk?

[47] **Mick Bates:** Hoffwn dynnu eich sylw at baragraff 2.4 ar dudalen 14. Mae'n ddiddorol gweld mai tri ysbyty'n unig sy'n cynnwys eu timau rheoli heintiau yn y broses o lunio eu safonau glanhau eu hunain. Onid yw hyn yn peryglu iechyd a lles cleifion?

**Ms Lloyd:** I do not think that it is adopting

**Ms Lloyd:** Nid wyf yn credu ei fod yn

the best practice that one possibly could have done, and, certainly, within the guidance that has been given to trusts, the importance of involving infection control teams is really highlighted. They can help in a number of ways because they, after all, have the bed of research and will be able to advise on best practice. All trusts will be monitored on the extent to which they involve infection control because, if they do not, they are not adopting best practice.

mabwysiadu'r arferion gorau y gallai fod wedi'i wneud, ac, yn sicr, o fewn y canllawiau sydd wedi'u rhoi i ymddiriedolaethau, mae pwysigrwydd cynnwys timau rheoli heintiau wedi'i amlygu'n glir. Gallant gynorthwyo mewn sawl ffordd oherwydd bod ganddynt, wedi'r cwbl, yr ymchwil sylfaenol a byddant yn gallu cynghori ar arferion gorau. Bydd yr holl ymddiriedolaethau'n cael eu monitro ar i ba raddau y maent yn cynnwys timau rheoli heintiau oherwydd, os nad ydynt, nid ydynt yn mabwysiadu arferion gorau.

[48] **Mick Bates:** You said earlier that one of the reasons for cleaning was for aesthetic purposes. We appreciate that as we like places to be tidy. What I find absolutely amazing is that, after all these years of knowing about the connection between cleanliness and infection—several paragraphs in the report say that there is a link—infection control teams are not part of the cleaning process in checking and swabbing areas as a matter of routine. Why has that not happened? I know that history is a dangerous thing, but why has this not taken place?

[48] **Mick Bates:** Dywedasoch yn gynharach bod estheteg yn un o'r rhesymau dros lanhau. Yr ydym yn gwerthfawrogi hynny am ein bod yn hoffi i leoedd fod yn daclus. Yr hyn sy'n hollol syfrdanol i mi, ar ôl gwybod am y cysylltiad rhwng glanweithdra a heintiau am yr holl flynyddoedd hyn—mae sawl paragraff yn yr adroddiad yn dweud bod cysylltiad—yw nad yw timau rheoli heintiau yn rhan o'r broses lanhau wrth archwilio a mopio mannau fel mater o arfer. Pam nad yw hynny wedi digwydd? Gwn fod hanes yn beth peryglus, ond pam nad yw hyn wedi digwydd?

**Ms Lloyd:** I think it was because the importance of cleaning and the correlation between hygiene—which is different from cleaning—and infection had not been made. Would it be helpful, Chair, if Dr Howard gave the Committee some information about the correlation between cleaning and infection? Would that be helpful?

**Ms Lloyd:** Credaf fod hyn oherwydd nad oedd pwysigrwydd glanhau a'r gydberthynas rhwng hylendid—sy'n wahanol i lanhau—a heintiau wedi'i wneud. A fyddai'n ddefnyddiol, Gadeirydd, pe bai Dr Howard yn rhoi peth gwybodaeth i'r Pwyllgor am y gydberthynas rhwng glanhau a heintiau? A fyddai hynny'n ddefnyddiol?

[49] **Janet Davies:** I think that it would be, yes.

[49] **Janet Davies:** Credaf y byddai.

[50] **Mick Bates:** Especially if only three hospitals actually understand it.

[50] **Mick Bates:** Yn arbennig os mai tri ysbyty yn unig sy'n ei ddeall.

**Dr Howard:** I hope that that is not the case.

**Dr Howard:** Gobeithiaf nad yw hynny'n wir.

[51] **Mick Bates:** Only three actually involved their infection control teams in setting cleaning standards.

[51] **Mick Bates:** Dim ond tri oedd wedi cynnwys eu timau rheoli heintiau yn y broses o bennu safonau glanhau.

**Dr Howard:** Okay. May I first say that, as a professional who has a mission to try to improve the situation in relation to infection control in Wales, I very much welcome this

**Dr Howard:** Iawn. A gaf ddweud yn gyntaf, fel gweithiwr proffesiynol sydd â thasg i geisio gwella'r sefyllfa o ran rheoli heintiau yng Nghymru, fy mod yn croesawu'r

report. It is a very helpful contribution. As people have pointed out, and as Ms Lloyd pointed out earlier, the report is really about two things. First, it is about cleaning in relation to the external perception of the environment by patients and visitors to hospitals, as an indicator of, or shop window on, the professional competence of the management of the place. The second issue is the importance of cleaning in relation to infection control.

adroddiad hwn yn fawr iawn. Mae'n gyfraniad defnyddiol iawn. Fel y mae pobl wedi ei nodi, ac fel y nododd Ms Lloyd yn gynharach, mae'r adroddiad yn ymwneud â dau beth mewn gwirionedd. Yn gyntaf, mae'n ymwneud â glanhau o ran sut y mae'r amgylchedd yn cael ei amgyffred yn allanol gan gleifion ac ymwelwyr â'r ysbytai, fel dangosydd, neu i arddangos, cymhwysedd proffesiynol rheolwyr y lle. Yr ail fater yw pwysigrwydd glanhau i reoli heintiau.

The problem with the second issue is that it is actually quite a complex relationship. I will talk this through. The problem in terms of the threat of the environment to patients in relation to infection depends on two issues. It depends on the load of pathogenic micro-organisms—the numbers of bacteria or viruses—and on the capacity of micro-organisms in the environment to get into patients and to then infect them. We are using the concept of a clean environment as a proxy, if you like, for a low content of contamination. Of course, the two things do not fully correlate. It is quite possible to have an apparently clean environment with a huge microbial contamination, because micro-organisms are very small and you cannot see them. That has been demonstrated very well by some published research in Wales that looked at the cleanliness of environments and at microbial load, and has shown not a tremendously strong correlation. I will give another example of that: I once dealt with an outbreak in a Welsh hospital that affected quite a lot of patients, where we ultimately identified that the cause of the outbreak was contamination that was affecting the cleaning cloths. So actually, in that environment, the cleaner the hospital, the more dangerous it was. The more people were actually cleaning it, the more patients were being exposed to risk. The reason that I just labour that point is that, in terms of infection control, the important issues to consider are actually the potential risks in given situations.

Y broblem gyda'r ail fater yw ei fod yn gydberthynas eithaf cymhleth mewn gwirionedd. Yr wyf am egluro hyn. Mae'r broblem o ran bygythiad yr amgylchedd i gleifion mewn perthynas â heintiau'n dibynnu ar ddau fater. Mae'n dibynnu ar lwyth y micro-organebau pathogenaidd—nifer y bacteria neu firysau—ac ar allu micro-organebau yn yr amgylchedd i gyrraedd y cleifion a'u heintio. Yr ydym yn defnyddio'r cysyniad o amgylchedd glân yn lle halogiad isel, os hoffwch chi. Wrth gwrs, nid yw'r ddau beth yn cydberthyn yn llawn. Mae'n dra phosibl cael amgylchedd sy'n ymddangos yn lân sydd â halogiad microbaidd enfawr, oherwydd bod micro-organebau yn fach iawn ac na ellir eu gweld. Dangoswyd hynny'n dda iawn gan rywfaint o'r gwaith ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi yng Nghymru a fu'n edrych ar lanweithdra amgylcheddau ac ar lwyth microbaidd, ac mae wedi dangos nad oes cydberthynas gryf iawn. Yr wyf am roi enghraifft arall o hynny: bum yn delio unwaith ag achos mewn ysbyty yng Nghymru a oedd yn effeithio ar lawer iawn o gleifion, ac yn y pen draw nodwyd gennym mai achos yr argyfwng oedd halogiad a oedd yn effeithio ar y clytiau glanhau. Felly mewn gwirionedd, yn yr amgylchedd hwnnw, po lanaf oedd yr ysbyty, po fwyaf y perygl. Po fwyaf o bobl a oedd yn ei lanhau, po fwyaf y cleifion a oedd yn agored i berygl. Y rheswm yr wyf yn llafurio dros y pwynt hwnnw, o ran rheoli heintiau, yw mai'r materion pwysig i'w hystyried mewn gwirionedd yw'r risgiau posibl mewn sefyllfaoedd penodol.

We know, for example, that major breakdowns of normal practice will expose people to risk. If there is a large spill of infective bodily fluids into the environment then that is clearly a risk. From a cleaning

Gwyddom, er enghraifft, y bydd diffygion sylweddol mewn arferion cyffredin yn peryglu pobl. Os oes swm enfawr o hylifau corfforol heintus yn cael eu gollwng i'r amgylchedd yna mae'n amlwg bod hynny'n

point of view, it is essential to ensure that that is dealt with as soon as possible and that you have staff available to deal with it quickly. We know that, in certain outbreak situations, the environment is important and that has been well demonstrated in relation to staphylococcal infections and gastro-intestinal infections. The problem with many of those investigations is that outbreaks are often multi-factorial in that, whenever you get a large outbreak in a hospital, there is usually a breakdown in practice at a variety of levels. It is quite difficult to pull the cleaning issue out. The difficult area to correlate, where there is not such a strong association is, if you like, the association between cleaning, in relation to infection control in the way that it is routinely undertaken, and baseline infection rates.

risg. O safbwynt glanhau, mae'n hanfodol mynd i'r afael â hynny cyn gynted â phosibl a bod gennych staff ar gael i ddelio â hynny'n gyflym. Gwyddom, mewn sefyllfaoedd o argyfwng penodol, bod yr amgylchedd yn bwysig ac mae hynny wedi'i ddangos yn glir mewn perthynas â heintiau staffylococol a heintiau perfeddol. Y broblem gyda nifer o'r archwiliadau hynny yw bod argyfyngau yn aml yn rhai amlffactoraidd o ran, pa bryd bynnag y byddwch yn cael achos mawr mewn ysbyty, mae fel arfer arferion sy'n methu ar amrywiaeth o lefelau. Mae'n eithaf anodd rhoi sylw penodol i'r mater glanhau. Y maes lle mae'n anodd creu cysylltiad, lle nad oes cysylltiad mor gryf, os hoffwch chi, yw'r cysylltiad rhwng glanhau, o ran rheoli heintiau yn y ffordd a ddefnyddir yn rheolaidd, a chyfraddau heintiau sylfaenol.

So, one assumes, we talk about levels of cleaning in Welsh hospitals, but everybody has a baseline level of cleaning; what is uncertain from research is the variation in infection rates that relate to variations in cleaning above that baseline level. So, from an infection control point of view, the areas that are really important to concentrate on are the ones of major risk to patients. Those are the ones where patients are most likely to be exposed to environmental contamination. So, the areas that we would be most concerned about are things like the contamination of equipment that is shared between patients, because any contamination has ready access to patients. That point is helpfully highlighted in the report in relation to the multiple use of beds. I mean, clearly, there is a capacity for intimate contact and spread of contamination between patients. So, those are the areas that, from an infection control standpoint, we will want to focus on.

Felly, mae rhywun yn rhagdybio, yr ydym yn trafod lefelau glanhau mewn ysbytai yng Nghymru, ond mae gan bawb lefel glanhau sylfaenol; yr hyn sy'n ansicr o'r ymchwil yw'r amrywiadau mewn cyfraddau heintiau sy'n perthyn i'r amrywiadau mewn glanhau uwchlaw'r lefel sylfaenol hynny. Felly, o safbwynt rheoli heintiau, y meysydd y mae'n wirioneddol bwysig canolbwyntio arnynt yw'r rhai sy'n fwyaf peryglus i gleifion. Dyna'r rhai lle mae cleifion yn fwyaf tebygol o fod yn agored i halogiad amgylcheddol. Felly, y meysydd y byddem yn fwyaf pryderus ynglŷn â hwy yw rhai megis halogi cyfarpar a rennir rhwng cleifion, oherwydd bod gan unrhyw halogiad fynediad parod i gleifion. Mae'r pwynt hwnnw'n cael ei amlygu'n ddefnyddiol yn yr adroddiad o ran defnyddio'r un gwlâu drosodd a throsodd. Yn amlwg, mae posibilrwydd o gysylltiad agos a lledaenu halogiad rhwng cleifion. Felly, dyna'r meysydd y byddwn, o safbwynt rheoli heintiau, am ganolbwyntio arnynt.

What I do not know, when we talk about just three hospitals with an infection control specialist being involved in the cleanliness standards—is the context of this in relation to other infection control activities. However, I would find it surprising if infection control specialists were not more widely involved in infection control practice, particularly in terms of being devoted to risk activities. You see, a lot of the cleanliness standards, which

Yr hyn nad wyf yn ei wybod, wrth drafod mai tri ysbyty yn unig yng Nghymru sydd ag arbenigwr rheoli heintiau yn cyfrannu at lunio'r safonau glanweithdra—yw cyd-destun hyn o ran gweithgareddau rheoli heintiau eraill. Fodd bynnag, byddai'n syndod i mi pe na bai arbenigwyr rheoli heintiau'n cyfrannu'n ehangach at arferion rheoli heintiau, yn arbennig o ran canolbwyntio ar weithgareddau peryglus.

are very important, will be some way down the list of potential risk factors in relation to acquisition of infection. So, the infection control teams may actually, in those hospitals, be involved in quite important areas in relation to the hospital hygiene. I mean, the general principle is obviously right, in that, obviously, the infection control specialists should be involved at all levels in the construction of the cleaning programme.

Bydd llawer o'r safonau glanweithdra, sy'n bwysig iawn, yn eithaf isel ar restr y ffactorau risg posibl o ran dal heintiau. Felly, efallai fod y timau rheoli heintiau mewn gwirionedd, yn yr ysbytai hynny, yn cyfrannu at feysydd eithaf pwysig o ran hylendid yr ysbyty. Credaf fod yr egwyddor gyffredinol yn amlwg yn iawn, o ran y dylai'r arbenigwyr rheoli heintiau, mae'n amlwg, gymryd rhan wrth lunio'r rhaglen lanhau ar bob lefel.

[52] **Mick Bates:** We can only go on the evidence found in this report and it clearly states that only in three hospitals were they directly involved. You are making the assumption that they might be involved in the other hospitals. I accept that they might be involved, but we need evidence. We are here trying to improve the standards, and I am still not convinced, from what you have told me, that these infection control teams in the other hospitals will actually become involved in setting these minimum standards. Is that going to be the case?

[52] **Mick Bates:** Gallwn ond bwyso ar y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn ac mae'n nodi'n glir mai dim ond mewn tri ysbyty yr oeddent yn cymryd rhan uniongyrchol. Yr ydych yn rhagdybio eu bod efallai'n cymryd rhan mewn ysbytai eraill. Yr wyf yn derbyn eu bod yn cymryd rhan o bosibl, ond mae angen tystiolaeth arnom. Yr ydym yma i geisio gwella'r safonau, ac nid wyf wedi fy argyhoeddi eto, o'r hyn yr ydych wedi'i ddweud wrthyf, y bydd y timau rheoli heintiau hyn yn yr ysbytai eraill yn cyfrannu mewn gwirionedd at bennu'r safonau gofynnol hyn. A fydd hynny'n digwydd?

**Ms Lloyd:** That is part of the standard that has been set.

**Ms Lloyd:** Mae hynny'n rhan o'r safon sydd wedi'i phennu.

[53] **Mick Bates:** So it will be the case?

[53] **Mick Bates:** Felly bydd hynny'n digwydd?

**Ms Lloyd:** They will be. However, as Dr Howard said, it is not just about the cleaning standards, it is about the management of equipment and so on, which is really important.

**Ms Lloyd:** Bydd. Fodd bynnag, fel y dywedodd Dr Howard, mae mwy i hyn na'r safonau glanhau'n unig, mae'n ymwneud hefyd â rheoli cyfarpar ac ati, sy'n hynod bwysig.

[54] **Mick Bates:** I think that I accept that but, of course, we have MRSA and all the concerns that the public has about standards. I accept that it is a cultural thing, and not just one specific aspect. When will you check up that the infection control team is part of the cleaning team?

[54] **Mick Bates:** Credaf fy mod yn derbyn hynny ond, wrth gwrs, mae gennym MRSA a'r holl bryderon sydd gan y cyhoedd ynghylch safonau. Yr wyf yn derbyn mai rhywbeth diwylliannol yw hyn, ac nid un agwedd benodol yn unig. Pryd y byddwch yn sicrhau bod y tîm rheoli heintiau yn rhan o'r tîm glanhau?

**Ms Lloyd:** In the first round of reviews in six months' time.

**Ms Lloyd:** Yn y cylch adolygiadau cyntaf mewn chwe mis.

[55] **Mick Bates:** So, in six months' time, will I be able to look at a report that states that all the infection teams are involved in these cleanliness standards?

[55] **Mick Bates:** Felly, mewn chwe mis, a fyddaf yn gallu edrych ar adroddiad sy'n nodi bod yr holl dimau heintiau yn cymryd rhan yn y safonau glanweithdra hyn?

**Ms Lloyd:** You will be able to look at a report that will tell us to what extent exactly the infection control teams were involved in these important areas and what the places are going to do about that.

**Ms Lloyd:** Byddwch yn gallu edrych ar adroddiad a fydd yn dweud wrthym i ba raddau'n union y bu'r timau rheoli heintiau'n cyfrannu at y meysydd pwysig hyn a beth y mae'r lleoedd yn mynd i'w wneud am hynny.

[56] **Mick Bates:** Thank you.

[56] **Mick Bates:** Diolch.

[57] **Janet Davies:** Jocelyn, you have questions to ask.

[57] **Janet Davies:** Jocelyn, mae gennych gwestiynau i'w gofyn.

[58] **Jocelyn Davies:** We see in the report that some equipment such as drip stands, hoists and commodes are not covered by a hospital's cleaning standards, specifications or the monitoring arrangements. Has the all-Wales facilities group taken these items into account when looking at the national cleaning standards or are those standards just specifically for domestic cleaning? How and why are you making the distinction between domestic cleaning and all other cleaning?

[58] **Jocelyn Davies:** Yr ydym yn gweld yn yr adroddiad nad yw peth o'r cyfarpar megis standiau diferwyr, peiriannau codi a chomodau yn cael eu cynnwys yn safonau glanhau, manylebau na threfniadau monitro ysbytai. A yw'r grŵp cyfleusterau Cymru gyfan wedi ystyried yr eitemau hyn wrth edrych ar y safonau glanhau cenedlaethol neu a yw'r safonau hynny'n benodol ar gyfer glanhau domestig yn unig? Sut a pham yr ydych yn gwahaniaethu rhwng glanhau domestig a'r holl feysydd glanhau eraill?

**Ms Lloyd:** The standards do include those items because that was a considerable gap, we believed, in the cleaning standards and in the infection control standards. I think that, when you look at this—and there is a great example in here of who does what in a hospital—you really have to unpick to what extent does this make any sense to anybody. When you look at it you think, 'goodness me, there's a bit of a haphazard approach here'. Therefore, as part of the cleaning standards, the other important thing that they do is to highlight to the trust management the variable practice within their own organisations so that they can assure themselves that the right people are doing the right sort of cleaning. It is very much from a practical point of view and how their support-worker teams are constructed. It is really important that they think very carefully about the practicalities of cleaning, who manages spillages, what they do about equipment that might go with a patient from one ward to another and how they will ensure that it is not infected so that it does not cross-infect in another area. I think that the standards will serve the purpose of highlighting these grey areas within the cleaning specifications within organisations.

**Ms Lloyd:** Mae'r safonau'n cynnwys yr eitemau hynny oherwydd bod hwnnw'n fwlch sylweddol, yn ein barn ni, yn y safonau glanhau ac yn y safonau rheoli heintiau. Credaf, wrth edrych ar hyn—ac mae enghraifft wych yma o bwy sy'n gwneud beth mewn ysbyty—bod yn rhaid i chi bennu i ba raddau y mae hyn yn gwneud synnwyr i unrhyw un. Wrth edrych arno yr ydych yn meddwl, 'bobl bach, mae elfen o agwedd rywsut-rywsut yma'. Felly, fel rhan o'r safonau glanhau, y peth pwysig arall y maent yn ei wneud yw amlygu i reolwyr yr ymddiriedolaethau yr amrywiaeth o arferion o fewn eu sefydliadau eu hunain fel y gallant sicrhau eu hunain bod y bobl iawn yn gwneud y math iawn o lanhau. Mae hyn o safbwynt ymarferol a sut y ffurfir eu timau gweithwyr cymorth. Mae'n bwysig iawn eu bod yn meddwl yn ofalus iawn am ymarferoldebau glanhau, pwy sy'n rheoli gollyngiadau, beth y maent yn ei wneud â chyfarpar a gludir o bosibl gyda chlaf o un ward i un arall a sut y byddant yn sicrhau nad yw wedi'i heintio fel nad yw'n traws-heintio mewn lleoliad arall. Credaf y bydd y safonau yn cyflawni'r nod o amlygu'r meysydd anelwig hyn ym manylebau glanhau sefydliadau.

[59] **Jocelyn Davies:** The report states in paragraph 2.11 that the National Audit Office noted during visits to hospitals that, for example, bathrooms were clean but contained equipment such as hoists and commodes that were not clean. Dr Howard just told us that shared equipment presents a major risk of infection. I understand that the domestic cleaners are not trained to clean those items. It is nurses, who would have enough other things to do, who are expected to clean those pieces of equipment—and they are not cleaned. They then present a major risk of infection to patients.

[59] **Jocelyn Davies:** Mae'r adroddiad yn nodi ym mharagraff 2.11 bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi sylwi'n ystod ymweliadau ag ysbytai bod, er enghraifft, ystafelloedd ymolchi yn lân ond yn cynnwys cyfarpar megis peiriannau codi a chomodau nad oeddynt yn lân. Mae Dr Howard newydd ddweud wrthym bod cyfarpar a gaiff ei rannu yn achosi perygl difrifol o heintiau. Deallaf nad yw'r glanhawyr domestig wedi'u hyfforddi i lanhau'r eitemau hynny. Mae disgwyl i nyrsys, sydd â mwy na digon o bethau eraill i'w gwneud, lanhau'r darnau hynny o gyfarpar—ac nid ydynt yn cael eu glanhau. Yna mae perygl difrifol iddynt heintio cleifion.

**Ms Lloyd:** Yes. As I said, I think that there needs to be a rethinking within organisations about how the whole environment is maintained in a clean state that will minimise the risk of infection, and who should do that is the second point that they need to consider.

**Ms Lloyd:** Ie. Fel y dywedais, credaf fod angen i sefydliadau ailfeddwl am y ffordd y dylai'r holl amgylchedd gael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr glân a fydd yn lleihau'r risg o heintiau, a phwy ddylai wneud hynny yw'r ail bwynt y mae angen iddynt ei ystyried.

[60] **Jocelyn Davies:** You mentioned earlier, when we were discussing recruitment, the advantages of the whole clinical environment coming under the direction of the ward sister. You also mentioned the advantage of having a ward-based culture. Are you saying that there perhaps should be plans to introduce the equivalent of the matron, or a single person with ultimate responsibility for all aspects of cleanliness in a ward?

[60] **Jocelyn Davies:** Bu i chi grybwyll yn gynharach, pan yr oeddem yn trafod recriwtio, y manteision i'r holl amgylchedd clinigol o fod dan adain prif nyrs y ward. Bu i chi grybwyll hefyd y fantais o gael diwylliant yn seiliedig ar y ward. A ydych yn dweud y dylid cael cynlluniau efallai i gyflwyno gweithiwr sy'n cyfateb i'r metron, neu unigolyn gyda'r prif gyfrifoldeb am yr holl agweddau ar lanweithdra mewn ward?

**Ms Lloyd:** I think that the ward manager already has that role. There needs to be much more discussion between the supervisors who look after cleaning and those ward managers about best practice and the involvement of the infection control teams. I think that the concept of a matron is a difficult one because it is somewhat stylised and possibly does not reflect actually what a clinical ward manager would be required to do for the future. However, it is a commonly held concept among the public—people like matrons. Basically, whatever we call them, it is really important that one individual has the responsibility for the whole of the ward environment and the clinical care of the patient, and cleaning, and the total environment in which patients are managed,

**Ms Lloyd:** Credaf fod rheolwr y ward yn ymgymryd â'r rôl honno eisoes. Mae angen i oruchwylwyr sy'n gofalu am lanhau'r wardiau a'r rheolwyr wardiau hynny gynnal llawer mwy o drafodaethau am arferion gorau a chyfraniad timau rheoli heintiau. Credaf fod y cysyniad o fetron yn un anodd oherwydd bod ganddo'i ddelwedd i ryw raddau ac nid yw o bosibl yn adlewyrchu'n union yr hyn fyddai'n ofynnol i reolwr ward clinigol ei wneud yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n gysyniad cyffredin ymhlith y cyhoedd—pobl fel metronau. Yn y bôn, beth bynnag yr ydym yn eu galw, mae'n bwysig iawn bod gan un unigolyn gyfrifoldeb dros holl amgylchedd y ward ac mae gofal clinigol y claf, a glanhau, a'r holl amgylchedd y caiff cleifion eu trin ynddo, yn

is vital to that.

hanfodol i hynny.

[61] **Jocelyn Davies:** Maybe we could change the stereotype from Hattie Jacques to something a bit more modern. Could that be achieved when a hospital is using the private sector? Can you have someone who is absolutely in charge?

[61] **Jocelyn Davies:** Efallai y byddem yn gallu newid y stereoteip o Hattie Jacques i rywbeth ychydig yn fwy modern. A ellid cyflawni hynny pan fo ysbyty'n defnyddio'r sector preifat? A oes modd cael rhywun sydd wirioneddol wrth y llyw?

**Ms Lloyd:** Yes, because as I said to the Chair, it is the specification that you give and the way in which you expect that team to work that is important, not who actually provides it at the end of the day.

**Ms Lloyd:** Oes, oherwydd fel y dywedais wrth y Cadeirydd, y fanyleb a roddir gennych a'r ffordd yr ydych yn disgwyl i'r tîm hwnnw weithio sy'n bwysig, nid pwy yn union sy'n darparu'r gwasanaeth yn y pen draw.

[62] **Janet Davies:** Thank you. We will now break for coffee.

[62] **Janet Davies:** Diolch. Fe gawn egwyl am goffi yn awr.

*Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 10.29 a.m. a 10.48 a.m.*
*The meeting was adjourned between 10.29 a.m. a 10.48 a.m.*

[63] **Janet Davies:** Right, if we could start again, I think that you wish to take up the issue of infection control, Mick, and pursue that further.

[63] **Janet Davies:** Iawn, os cawn ail-ddechrau, credaf eich bod am drafod y mater o reoli heintiau, Mick, a thrafod y mater hwnnw ymhellach.

[64] **Mick Bates:** Yes, I do. Thank you, Chair. On infection control again, and referring to paragraph 2.14, some very interesting information emerges. For example, how do you account for the fact that the Royal Gwent Hospital carries out an infection control audit four times a year in each ward, while Llandough Hospital has not carried out an infection control audit for more than five years?

[64] **Mick Bates:** Ydw, yr wyf am wneud hynny. Diolch, Gadeirydd. I fynd yn ôl at reoli heintiau, a chan gyfeirio at baragraff 2.14, mae gwybodaeth ddiddorol iawn yn codi'i phen. Er enghraifft, sut yr ydych yn egluro'r ffaith bod Ysbyty Brenhinol Gwent yn cynnal archwiliad rheoli heintiau bedair gwaith y flwyddyn ym mhob ward, tra nad yw Ysbyty Llandoche wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau ers dros bum mlynedd?

**Ms Lloyd:** There again, I think that it is down to the trust management and the importance that it is placing on this.

**Ms Lloyd:** Eto, credaf mai cyfrifoldeb rheolwyr yr ymddiriedolaeth yw hynny a'r pwys y mae'n ei roi ar hyn.

[65] **Mick Bates:** That is an obvious point. However, where is the responsibility—?

[65] **Mick Bates:** Mae hynny'n bwynt amlwg. Fodd bynnag, pwy sydd â'r cyfrifoldeb—?

**Ms Lloyd:** With the trust management.

**Ms Lloyd:** Rheolwyr yr ymddiriedolaeth.

[66] **Mick Bates:** It is with the trust management?

[66] **Mick Bate** Rheolwyr yr ymddiriedolaeth?

**Ms Lloyd:** Yes. It is totally accountable.

**Ms Lloyd:** Ie. Maent yn hollol atebol.

[67] **Mick Bates:** It is totally accountable.

[67] **Mick Bates:** Maent yn hollol atebol.

But, is there not a further layer of management that overlooks it and asks where the standards are? I refer to the point that I made earlier that, throughout all this time, there have been no minimum standards to ensure that infection control teams, for example, as I said before, were involved in setting the standards.

Ond, onid oes lefel uwch o reolwyr sy'n goruchwylio hyn ac yn gofyn ymhle mae'r safonau? Cyfeiriaf at y pwynt a godais yn gynharach, na fu safonau gofynnol drwy gydol y cyfnod hwn, i sicrhau bod timau rheoli heintiau, er enghraifft, fel y dywedais yn gynharach, yn cyfrannu at bennu'r safonau.

**Ms Lloyd:** Until very recently, the Assembly had no powers or accountability in this area. That has now been put right. I think that that is very important. Standards might be one thing, but it is really important that the management itself applies those standards. You can have the best standards in the world, but if they are not applied well, then we are not going to see improvement. Dr Howard tells me that there is good infection control surveillance at Llandough Hospital, so I am not quite sure how that came about.

**Ms Lloyd:** Tan yn ddiweddar iawn, nid oedd gan y Cynulliad bwerau nac atebolrwydd yn y maes hwn. Mae hynny wedi ei gywiro bellach. Credaf fod hynny'n bwysig iawn. Efallai fod safonau'n un peth, ond mae'n bwysig iawn bod y rheolwyr eu hunain yn cymhwyso'r safonau hynny. Gallwch gael y safonau gorau'n y byd, ond os nad ydynt yn cael eu cymhwyso'n dda, yna welwn ni ddim gwelliant. Mae Dr Howard yn dweud wrthyf bod rhaglen oruchwylio rheoli heintiau dda yn Ysbyty Llandoche, felly nid wyf yn siŵr sut y digwyddodd hynny.

**Dr Howard:** I am not sure about the arrangements in relation to audit, but what one would say is that Llandough Hospital has good infection control surveillance programmes in place. So one would hope that it would have a parallel system that would highlight problem areas in relation to changing rates of infection.

**Dr Howard:** Nid wyf yn siŵr am y trefniadau o ran archwilio, ond byddai dyn yn dweud bod gan Ysbyty Llandoche raglenni goruchwylio rheoli heintiau da ar waith. Felly byddai rhywun yn gobeithio y byddai system gyffelyb ganddo a fyddai'n amlygu meysydd lle ceir problemau o ran cyfraddau newidiol heintiau.

[68] **Mick Bates:** I see. So you are saying that it carries out what you would view as a high standard of infection surveillance?

[68] **Mick Bates:** Gwelaf fi. Felly yr ydych yn dweud ei fod yn cynnal yr hyn y byddech yn ei alw'n safon uchel o oruchwylio heintiau?

**Dr Howard:** Yes.

**Dr Howard:** Byddwn.

[69] **Mick Bates:** But it is not manifest in this report?

[69] **Mick Bates:** Ond nid yw wedi'i amlygu yn yr adroddiad hwn?

**Dr Howard:** Yes, that is right.

**Dr Howard:** Ydyw, mae hynny'n gywir.

[70] **Mick Bates:** Okay. Do you see the point that, as the general public, we need to know that?

[70] **Mick Bates:** Iawn. A ydych yn deall y pwynt ein bod, fel y cyhoedd, angen gwybod hynny?

**Ms Lloyd:** Of course.

**Ms Lloyd:** Wrth gwrs.

[71] **Mick Bates:** Finally, I will return to the new standards. Will these new standards include minimum frequencies for the carrying out of infection control audits?

[71] **Mick Bates:** Yn olaf, yr wyf am ddychwelyd at y safonau newydd. A fydd y safonau newydd hyn yn cynnwys cyfnodau gofynnol ar gyfer cynnal archwiliadau rheoli heintiau?

**Ms Lloyd:** Yes.

[72] **Mick Bates:** Can you tell me what they will be?

**Ms Lloyd:** Can I look it up, please? Can I give you a note on that?

[73] **Mick Bates:** Okay, fine.

**Ms Lloyd:** You will get the standards anyway at the end of this month, so if you would like me to circulate the standards to you, would that be helpful?

[74] **Janet Davies:** Yes, I think that it would.

[75] **Mick Bates:** Thank you, Chair.

[76] **Janet Davies:** Leighton, did you want to come in on this?

[77] **Leighton Andrews:** I did, really. You say that the trusts are totally accountable, Ms Lloyd, for infection control audits. However, it is hard to understand how that accountability is held to in a situation where one has not had an audit for five years.

**Ms Lloyd:** Yes, I would quite agree.

[78] **Leighton Andrews:** But then how are they accountable in practice? The management is accountable to the trust, and, ultimately, you, presumably, and we, have sanctions over that, but what do you regard as being appropriate?

**Ms Lloyd:** The trust management will be accountable to its board, which is accountable to its community for the standards of care. That is why we have said in our new standards and in our new guidance that there has to be a greater ownership of this important area at the trust board. It is only really in the last 15 months that the accountability between trust chief executives and myself has been clarified and extended. That is why we have been putting into place under the plan issues such as facilities management and the standards that we expect to see. That accountability has only recently been reasserted.

**Ms Lloyd:** Byddant.

[72] **Mick Bates:** A allwch ddweud wrthyf beth fydd y rhain?

**Ms Lloyd:** A gaf wirio hynny, os gwelwch yn dda? A gaf roi nodyn i chi ar hynny?

[73] **Mick Bates:** Ie, iawn.

**Ms Lloyd:** Byddwch yn cael y safonau beth bynnag ddiwedd y mis hwn, felly os ydych am imi ddosbarthu'r safonau i chi, a fyddai hynny'n ddefnyddiol?

[74] **Janet Davies:** Byddai, credaf y byddai.

[75] **Mick Bates:** Diolch, Gadeirydd.

[76] **Janet Davies:** Leighton, a oeddech am gyfrannu yma?

[77] **Leighton Andrews:** Oeddwn, a dweud y gwir. Yr ydych yn dweud bod yr ymddiriedolaethau'n hollol atebol, Ms Lloyd, am archwiliadau rheoli heintiau. Fodd bynnag, mae'n anodd deall sut y glynir at yr atebolrwydd hwnnw mewn sefyllfa lle na chynhaliwyd archwiliad am bum mlynedd.

**Ms Lloyd:** Ie, byddwn yn cytuno'n llwyr.

[78] **Leighton Andrews:** Ond sut felly y maent yn atebol yn ymarferol? Mae'r rheolwyr yn atebol i'r ymddiriedolaeth, ac, yn y pen draw, mae gennych chi, mae'n debyg, a ni, sancsiynau dros hynny, ond beth sy'n briodol yn eich tyb chi?

**Ms Lloyd:** Bydd rheolwyr yr ymddiriedolaeth yn atebol i'w bwrdd, sy'n atebol i'w gymuned am y safonau gofal. Dyna pam ein bod wedi dweud yn ein safonau newydd ac yn ein canllawiau newydd bod yn rhaid i fwrdd yr ymddiriedolaeth gymryd mwy o gyfrifoldeb am y maes pwysig hwn. Yn y 15 mis diwethaf yn unig, mewn gwirionedd, y mae'r atebolrwydd rhwng prif weithredwyr yr ymddiriedolaethau a minnau wedi'u hegluro a'u hesbonio. Dyna pam ein bod wedi bod yn rhoi materion, megis rheoli cyfleusterau a'r safonau yr ydym yn disgwyl eu gweld, ar waith drwy'r cynllun. Yn ddiweddar yn unig

yr ailsefydlwyd yr atebolrwydd hwnnw.

[79] **Leighton Andrews:** Okay. You say that the trust board is ultimately accountable to its community. The ways in which communities can exercise accountability over their trust boards are not necessarily obvious to the community at large, unless, to be honest with you, probably the media or elected representatives call the community's attention to issues that may arise. That may not be, actually, the most helpful way in which to have accountability in this area, because it means that you simply get a cycle of negative coverage and perhaps an over-fixation on certain points. So in terms of your processes, it seems to me that your processes have to provide an additional layer of accountability so that the operating process itself addresses the kinds of concerns that might arise if people felt that these inspections were not happening on a regular enough basis.

[79] **Leighton Andrews:** Iawn. Yr ydych yn dweud mai bwrdd yr ymddiriedolaeth sy'n atebol yn y pen draw i'w gymuned. Nid yw'r ffyrdd y gall cymunedau ofyn am atebolrwydd gan fyrddau eu hymddiriedolaeth yn eglur i drwch y gymuned o reidrwydd, os nad, i fod yn onest â chi, yw'r cyfryngau neu gynrychiolwyr etholedig efallai yn tynnu sylw'r gymuned at faterion a allai godi. Efallai nad hynny, mewn gwirionedd, fyddai'r ffordd fwyaf defnyddiol o sicrhau atebolrwydd yn y maes hwn, oherwydd ei fod yn golygu eich bod yn y bôn yn cael cylch o sylw negyddol a gorbwysleisio pwyntiau penodol o bosibl. Felly o ran eich prosesau, ymddengys i mi fod yn rhaid i'ch prosesau ddarparu lefel ychwanegol o atebolrwydd er mwyn i'r broses weithredu ei hun fynd i'r afael â'r mathau o bryderon a allai godi pe bai pobl yn teimlo nad oedd yr archwiliadau hyn yn digwydd yn ddigon rheolaidd.

**Ms Lloyd:** That is precisely why, in the past year, I have been developing the performance management structure. That will highlight all these areas and will include any additional guidance and standards that we wish to set. That will be published, so that the community, as well as the Assembly, can see quite well the sorts of standards and performance that are available within each of the organisations. There was not a performance management culture before; there is now.

**Ms Lloyd:** Dyna'n union pam, yn y flwyddyn ddiwethaf, fy mod wedi bod yn datblygu'r sdrwythur rheoli perfformiad. Bydd hwnnw'n amlygu'r holl feysydd hyn ac yn cynnwys unrhyw ganllawiau a safonau ychwanegol yr ydym am eu pennu. Bydd hynny'n cael ei gyhoeddi, er mwyn i'r gymuned, yn ogystal â'r Cynulliad, allu gweld yn eithaf clir y mathau o safonau a pherfformiad sydd ar gael ymhob sefydliad. Nid oedd diwylliant rheoli perfformiad yn y gorffennol; mae un ar gael bellach.

[80] **Janet Davies:** Thank you, Leighton. Alun, would you like to continue with the questions?

[80] **Janet Davies:** Diolch, Leighton. Alun, a ydych am barhau â'r cwestiynau?

[81] **Alun Cairns:** Thank you, Cadeirydd. I would like to pursue this a bit further, because I am interested in the responses that you gave to Leighton, Mrs Lloyd. I accept that the first level of accountability is to the trust management, and then, obviously, to the board, and then to the community. However, where do you see that your role lies in this? What responsibility or accountability do you, and then, ultimately, the Minister have?

[81] **Alun Cairns:** Diolch, Gadeirydd. Hoffwn fynd ar drywydd y mater hwn ymhellach, oherwydd mae gennyf ddiddordeb yn yr ymatebion yr ydych wedi'u rhoi i Leighton, Ms Lloyd. Yr wyf yn derbyn mai i reolwyr yr ymddiriedolaeth y mae'r lefel gyntaf o atebolrwydd, ac yna, yn amlwg, i'r bwrdd, ac yna i'r gymuned. Fodd bynnag, lle yr ydych yn ystyried eich rôl chi yn hyn i gyd? Pa gyfrifoldeb neu atebolrwydd sydd gennych chi, ac yna, yn y pen draw, y Gweinidog?

**Ms Lloyd:** Well I now have the ultimate accountability to the Minister for the management and the standards of the NHS right throughout Wales. However, when I was appointed two years ago, that accountability was not stated like that; on the requirement of the Minister, this has been clarified over the last 18 months. You will know that, in the recent Wanless report, this issue of accountability has again been highlighted. Derek Wanless has recommended that it be strengthened further.

**Ms Lloyd:** Wel mae gennyf yn awr yr atebolrwydd pennaf i'r Gweinidog am reolaeth a safonau'r GIG ledled Cymru. Fodd bynnag, ar ôl fy mhenodi ddwy flynedd yn ôl, ni nodwyd yr atebolrwydd hwnnw fel hynny; ar gais y Gweinidog, mae hyn wedi'i egluro'n ystod y 18 mis diwethaf. Byddwch yn gwybod, yn adroddiad diweddar Wanless, bod yr achos hwn o atebolrwydd wedi'i amlygu eto. Mae Derek Wanless wedi argymell ei fod yn cael ei atgyfnerthu ymhellach.

[82] **Alun Cairns:** Okay. So, going back to your first answer when you said that accountability is with the trust manager and the board, do you accept that that could suggest an abdication of the responsibility of the Assembly in the process?

[82] **Alun Cairns:** Iawn. Felly, gan fynd yn ôl at eich ateb cyntaf pan y bu i chi ddweud mai rheolwr yr ymddiriedolaeth a'r bwrdd sydd â'r atebolrwydd, a ydych yn derbyn y gallai hynny awgrymu bod cyfrifoldeb y Cynulliad yn y broses yn cael ei ymwrthod?

**Ms Lloyd:** No, because we cannot do everything ourselves—otherwise, why appoint trust boards; we might as well manage the lot. It is really important that trusts take care of their own responsibilities. They are charged with that responsibility, for which I hold them to account, for the management and organisation of clinical and support care within their organisations, within guidelines set by the Assembly to which, now, the Assembly holds them to account.

**Ms Lloyd:** Na, oherwydd na allwn wneud popeth ein hunain—fel arall, pam penodi byrddau ymddiriedolaeth; man a man i ni reoli'r cwbl. Mae'n bwysig iawn bod ymddiriedolaethau'n gofalu am eu cyfrifoldebau eu hunain. Eu cyfrifoldeb hwy yw hynny, ac maent yn atebol imi, am reoli a threfnu gofal clinigol a chymorth yn eu sefydliadau, o fewn canllawiau a osodir gan y Cynulliad ac sy'n golygu, bellach, eu bod yn atebol i'r Cynulliad.

[83] **Jocelyn Davies:** So it is the Assembly and yourself, as well as the community, that will hold them to account?

[83] **Jocelyn Davies:** Felly i chi a'r Cynulliad, ynghyd â'r gymuned, y byddant yn atebol?

**Ms Lloyd:** Yes.

**Ms Lloyd:** Ie.

[84] **Janet Davies:** Thank you. Mark, do you have a question?

[84] **Janet Davies:** Diolch. Mark, a oes gennych chi gwestiwn?

[85] **Mark Isherwood:** May I ask a supplementary question prior to my allocated questions? It is in relation to this matter.

[85] **Mark Isherwood:** A gaf ofyn cwestiwn ychwanegol cyn fy nghwestiynau penodol? Mae'n ymwneud â'r mater hwn.

[86] **Janet Davies:** Yes, okay.

[86] **Janet Davies:** Ie, iawn.

[87] **Mark Isherwood:** You have referred many times to performance management, Ms Lloyd. I would be interested to hear your understanding of performance management, because on one occasion you actually said that you could use performance management to deal with failure to deliver. My

[87] **Mark Isherwood:** Yr ydych wedi cyfeirio sawl gwaith at reoli perfformiad, Ms Lloyd. Byddwn â diddordeb i glywed beth yw ystyr rheoli perfformiad i chi, oherwydd ar un achlysur bu i chi ddweud y gallech ddefnyddio'r broses o reoli perfformiad i ddelio â methu â darparu. Yr oeddwn i ar

understanding of performance management is that it is about coaching, development, agreeing action plans with individuals, and then reviewing that on a systematic basis, whereas failure to deliver and failure to co-operate becomes more of a disciplinary issue. Do you agree, or does your performance management system incorporate the disciplinary aspects as well?

ddeall bod rheoli perfformiad yn ymwneud â hyfforddi, datblygu, cytuno ar gynlluniau gweithredu gydag unigolion, ac yna adolygu hynny'n systematig, a bod methu â darparu a methu â chydweithredu yn fwy o fater disgyblu. A ydych yn cytuno, neu a yw eich system rheoli perfformiad yn cynnwys agweddau disgyblu hefyd?

**Ms Lloyd:** The regions and we are monitoring all the trusts against all the targets and standards that have been set. We have just finished the first round of that, and are now into the first quarterly reviews of how the organisations are performing against the standards set by the Assembly and its Government. What is also contained within that, and that has been something that we have been discussing in the last six months, is the issue of what are the incentives and sanctions that you place within a performance management system. The sanctions obviously follow the line that, if there is a failure to act against an agreed action plan over a reasonable period of time—that is, reasonable in our view—then, obviously, there has to be a withdrawal of executive authority. That is what you will see. As accounting officer, I already have the responsibility for the governance of the organisations, and I can issue letters of censure to chief executives who fail to operate their accountability effectively. This is not a disciplinary issue; this is a performance management issue. This is something that I do very infrequently, I have to say. However, the whole of the performance management system, which has been developed in Wales, is all about continuous improvement, and a continuing striving towards increased accountability, increased responsibility and an increase in standards and delivery. However, if there is a failure that is continuous, then executive power has to be removed.

**Ms Lloyd:** Mae'r rhanbarthau a ninnau yn monitro pob ymddiriedolaeth yn ôl y targedau a'r safonau a osodwyd. Yr ydym newydd orffen y cam cyntaf o hynny, a bellach yr ydym yn cynnal yr adolygiadau chwarterol cyntaf o sut y mae'r sefydliadau'n perfformio yn ôl y safonau a osodwyd gan y Cynulliad a'i Lywodraeth. Yr hyn sydd hefyd wedi'i gynnwys yn hwnnw, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym wedi bod yn ei drafod yn ystod y chwe mis diwethaf, yw beth yw'r cymhellion a'r sancsiynau a roddir gennych o fewn system rheoli perfformiad. Mae'r sancsiynau'n amlwg yn dilyn y feddylfryd, sef os methir â gweithredu'n erbyn cynllun gweithredu y cytunwyd arno dros gyfnod rhesymol o amser—hynny yw, rhesymol yn ein barn ni—yna, yn amlwg, mae'n rhaid dirymu'r awdurdod gweithredol. Dyna beth y byddwch yn ei weld. Fel swyddog cyfrifo, mae gennyf y cyfrifoldeb yn barod dros reoli'r sefydliadau, a gallaf anfon llythyrau cerydd at brif weithredwyr nad ydynt yn gweithredu eu hatebolrwydd yn effeithiol. Nid mater o ddisgyblu yw hyn; mae'n fater o reoli perfformiad. Anaml iawn y byddaf yn gwneud hyn, mae'n rhaid i mi ddweud. Fodd bynnag, mae'r holl system rheoli perfformiad, sydd wedi'i datblygu yng Nghymru, yn ymwneud â chynnydd parhaus, ac ymdrech barhaus tuag at atebolrwydd cynyddol, cyfrifoldeb cynyddol a chynnydd mewn safonau a darpariaeth. Fodd bynnag, os ceir methiant parhaus, mae'n rhaid dirymu'r pwerau gweithredol.

[88] **Mark Isherwood:** There are checks and balances therefore in place?

[88] **Mark Isherwood:** Mae rhwystrau a gwrthbwysau ar waith felly?

**Ms Lloyd:** Yes.

**Ms Lloyd:** Oes.

[89] **Mark Isherwood:** To return to my allocated questions therefore, I draw attention to paragraph 2.15 of the report,

[89] **Mark Isherwood:** I ddychwelyd at fy nghwestiynau penodol felly, tynnaf eich sylw at baragraff 2.15 yr adroddiad, sy'n nodi bod

which notes that many hospitals have monitoring checks in place. However, the results of the monitoring checks were, apparently, rarely reported to senior management or discussed at board level. Why should this be the case, when the NHS plan for Wales clearly aims to ensure that trust boards are accountable for overseeing all aspects of hygiene?

nifer o ysbytai yn gweithredu gwiriadau monitro. Fodd bynnag, anaml yr oedd canlyniadau'r gwiriadau monitro, yn ôl pob sôn, yn cael eu hadrodd i uwch reolwyr na'u trafod ar lefel y bwrdd. Pam fod hyn yn digwydd, pan fo cynllun GIG i Gymru yn amlwg am sicrhau bod byrddau'r ymddiriedolaethau'n gyfrifol am oruchwylio pob agwedd ar hylendid?

**Ms Lloyd:** I think that that again is an issue of culture, and of the priority given by organisations to this area. That is why we now have an executive board member on each board who is designated as responsible for the ultimate ownership of this issue, and who has to report on this area within the board itself. We felt that it was important that the boards did start to grapple with this.

**Ms Lloyd:** Credaf fod hynny eto'n fater o ddiwylliant, ac o'r flaenoriaeth a roddir gan sefydliadau i'r maes hwn. Dyna pam bod gennym aelod bwrdd gweithredol ar bob bwrdd sy'n gyfrifol am berchnogaeth y mater yn y pen draw, ac sy'n gorfod adrodd ar y maes hwn o fewn y bwrdd ei hun. Yr oeddem yn teimlo ei bod yn bwysig bod y byrddau yn dechrau mynd i'r afael â hyn.

[90] **Mark Isherwood:** Thank you. Referring again to case study D on page 19, which highlights best practice in the Singleton and Morriston hospitals in Swansea NHS Trust, it showed that some hospitals have introduced strict lines of communication—monthly monitoring checks in this case. How could you make such a system compulsory across the whole of Wales, and when could this become the case?

[90] **Mark Isherwood:** Diolch. Gan gyfeirio eto at astudiaeth achos D ar dudalen 19, sy'n amlygu arferion gorau yn ysbytai Singleton a Threforys yn Ymddiriedolaeth GIG Abertawe, yr oedd yn dangos bod rhai ysbytai wedi cyflwyno sianeli cyfathrebu llym—gwiriadau monitro misol yn yr achos hwn. Sut allech chi wneud system fel hyn yn orfodol ledled Cymru gyfan, a phryd ellid gwneud hyn?

**Ms Lloyd:** This is again part of the standards. These are the good practice issues that have been picked up by the forum as it developed these standards. Again, I will be able to advise you on how prevalent this system is throughout Wales once we have finished our first six-monthly check. However, we will agree with each organisation, if it does not already do this, by what time it will be doing it. I think that there is an important issue to remember here. About 20 years ago, in terms of domestic services, there was a national domestic services manager training programme, which lapsed right throughout the UK. Given the importance of cleaning, and the development of support services, this is a time when we need to reconsider how we really get good supervisors, good managers of these services, back into the system. The supervision of cleaning makes a great deal of difference to a hospital. Again, we need to provide and reinstate a proper career structure, with proper training and development, so that,

**Ms Lloyd:** Mae hyn eto'n rhan o'r safonau. Y rhain yw'r materion arferion gorau sydd wedi'u dethol gan y fforwm wrth iddo ddatblygu'r safonau hyn. Eto, byddaf yn gallu eich cynghori ar ba mor gyffredin yw'r system hon ledled Cymru ar ôl i ni orffen ein gwiriad chwemisol cyntaf. Fodd bynnag, byddwn yn cytuno â phob sefydliad, os nad yw'n gwneud hyn yn barod, erbyn pryd y bydd yn ei wneud. Credaf fod mater pwysig i'w gofio yma. Tua 20 mlynedd yn ôl, o ran gwasanaethau domestig, yr oedd rhaglen hyfforddi rheolwyr gwasanaethau domestig cenedlaethol, a ddaeth i ben ledled y DU. O ystyried pwysigrwydd glanhau, a datblygiad gwasanaethau cymorth, dyma gyfnod lle mae angen i ni ailystyried sut y gallwn gael goruchwylwyr gwirioneddol dda, rheolwyr da ar gyfer y gwasanaethau hyn, yn ôl i'r system. Mae goruchwylio glanhau yn gwneud cryn wahaniaeth i ysbyty. Eto, mae angen i ni ddarparu ac ailsefydlu sdrwythur gyrfa iawn, gyda hyfforddi a datblygu iawn, er mwyn i'r bobl hynny, drwy weithio â'r

working with the infection control teams, those people can ensure that induction for all staff is right, and that the importance of cleanliness and personal hygiene is highlighted for everybody within the hospital community.

timau rheoli heintiau, sicrhau bod eu rhaglenni sefydlu ar gyfer yr holl staff yn iawn, a bod pwysigrwydd glanweithdra a hylendid personol yn cael ei amlygu i bawb yng nghymuned yr ysbyty.

[91] **Mark Isherwood:** Thank you. Leading on from that, I refer you to paragraph 2.18, which highlights the issues of poor communication to hospital staff in this area. Case study G on page 20, which again highlights good practice—[*Interruption*.]

[91] **Mark Isherwood:** Diolch. Gan ddilyn y trywydd hwnnw, cyfeiriaf at baragraff 2.18, sy'n amlygu materion cyfathrebu gwael i staff ysbyty yn y maes hwn. Mae astudiaeth achos G ar dudalen 20, sydd eto'n amlygu arferion da—[*Torri ar draws*.]

**Ms Lloyd:** Excuse me, I have a cough.

**Ms Lloyd:** Esgusodwch fi, yr wyf yn pesychu.

[92] **Mark Isherwood:** Are you all right? Good. Case study G on page 20 again highlights best practice in Swansea NHS Trust. What plans do you have to ensure that such a system is used across all hospitals in Wales, and how can outcomes then be systematically monitored?

[92] **Mark Isherwood:** A ydych yn iawn? Da iawn. Mae astudiaeth achos G ar dudalen 20 eto'n amlygu arferion gorau yn Ymddiriedolaeth GIG Abertawe. Pa gynlluniau sydd gennych i sicrhau bod system o'r fath yn cael ei defnyddio ym mhob ysbyty yng Nghymru, a sut y gellir monitro canlyniadau'n systematig wedi hynny?

**Ms Lloyd:** Well, in the same way, this is also part of the standards and will also be available.

**Ms Lloyd:** Wel, yn yr un modd, mae hyn hefyd yn rhan o'r safonau a bydd hefyd ar gael.

[93] **Mark Isherwood:** I am sure, from what you have already told us, that you agree that ownership of delivery should be cascaded top-down to everybody in the organisation, on a collective team basis?

[93] **Mark Isherwood:** Yr wyf yn siŵr, o'r hyn yr ydych wedi'i ddweud wrthym yn barod, eich bod yn cytuno y dylai'r cyfrifoldeb am ddarpariaeth gael ei ffrydio o'r brig i'r bôn i bawb yn y sefydliad, ar sail tîm cyfunol?

**Ms Lloyd:** Yes.

**Ms Lloyd:** Ydw.

[94] **Mark Isherwood:** As part of that, do you believe that you yourself should have sight of the hospitals that are continually failing to keep the wards clean?

[94] **Mark Isherwood:** Fel rhan o hynny, a ydych yn credu y dylech chi eich hun weld yr ysbytai sy'n methu byth a hefyd â chadw'r wardiau'n lân?

**Ms Lloyd:** As part of my performance management, I make regular visits, with my regional directors, to organisations, good and improving. I will be taking up the results of the performance management outcomes with them to address personally how the trust management is going to take forward any improvements that are needed, or how the trust management is going to spread the good practice that has been found in the trust.

**Ms Lloyd:** Fel rhan o'm system rheoli perfformiad, ymwelaf yn rheolaidd, gyda'm cyfarwyddwyr rhanbarthol, â sefydliadau, rhai da a rhai sy'n gwella. Byddaf yn trafod canlyniadau'r rheoli perfformiad gyda hwy er mwyn mynd i'r afael yn bersonol â sut y bydd rheolwyr yr ymddiriedolaeth yn cyflawni unrhyw welliannau sydd eu hangen, neu sut y bydd rheolwyr yr ymddiriedolaeth yn lledaenu'r arferion da sydd wedi'u canfod

yn yr ymddiriedolaeth.

[95] **Mark Isherwood:** I think that your visible involvement will give a powerful message to all the staff involved in these improvement projects, certainly.

[95] **Mark Isherwood:** Credaf y bydd eich gweld yn cyfrannu yn rhoi neges bwerus i'r holl staff sy'n cyfrannu at y prosiectau gwella hyn, yn sicr.

**Ms Lloyd:** Yes. Well, I hope so.

**Ms Lloyd:** Bydd. Wel, yr wyf yn gobeithio hynny.

[96] **Mark Isherwood:** Okay, thank you.

[96] **Mark Isherwood:** Iawn, diolch.

[97] **Janet Davies:** Moving on to page 22, I want to look at figure 8, which shows the number of cleaning specifications that have been rewritten recently. Clearly, we are hearing this morning about all the new systems that are being put into place, and, in a way, this whole situation is moving. So, perhaps, on some of the things that we are looking at in the report, there may have been changes by the time we get to them but, obviously, it is the report that we are talking about. So, could I ask you about the fact that only two of the 17 acute hospitals in Wales have updated their cleaning specifications, according to the report, within the last three years, and that seven of them have not rewritten them for more than 10 years. I do not know if you can give any more up-to-date information than that but, if not, how would you explain that situation?

[97] **Janet Davies:** Gan symud ymlaen at dudalen 22, yr wyf am edrych ar ffigur 8, sy'n dangos nifer y manylebau glanhau sydd wedi'u hailysgrifennu'n ddiweddar. Yn amlwg, yr ydym yn clywed y bore yma am yr holl systemau newydd sy'n cael eu rhoi ar waith, ac, mewn ffordd, mae'r holl sefyllfa hon yn symud. Felly, efallai, gyda rhai o'r pethau yr ydym yn edrych arnynt yn yr adroddiad hwn, efallai y bu newidiadau erbyn i ni eu trafod ond, yn amlwg, yr ydym yn trafod yr adroddiad. Felly, a gaf ofyn i chi am y ffaith mai dau ysbyty'n unig o'r 17 ysbyty aciwt yng Nghymru sydd wedi diweddaru eu manylebau glanhau, yn ôl yr adroddiad, o fewn y tair blynedd diwethaf, ac nid yw saith ohonynt wedi'u hailysgrifennu ers dros 10 mlynedd. Nid wyf yn gwybod a allwch roi gwybodaeth fwy diweddar na hynny ond, os na allwch, sut y byddech yn egluro'r sefyllfa honno?

**Ms Lloyd:** I am advised by my colleague that these specifications will obviously be rewritten as part of the standards that have to be complied with. In terms of why they have not been rewritten so far, there have always been basic standards against which trusts commission their cleaning services, and again, I think that this is very much a matter of trust priority—what priority did the management give to rewriting specifications. For many of them, their hospitals will have remained unchanged for some considerable time. Obviously, when you have new areas, you rewrite specifications, so some might have been luckier than others. However, with the increase in infection, and with the spotlight that has been highlighted there, then obviously all of them will be rewritten within the next year, unless they are very, very new and comply with the best practice.

**Ms Lloyd:** Fe'm cynghorir gan fy nghydweithiwr y bydd y manylebau hyn yn amlwg yn cael eu hailysgrifennu fel rhan o'r safonau y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy. O ran pam nad ydynt wedi'u hailysgrifennu hyd yma, bu safonau sylfaenol gydol yr amser fel sail i'r ymddiriedolaethau gomisiynu eu gwasanaethau glanhau, ac eto, credaf fod hwn yn fater y dylai'r ymddiriedolaethau roi blaenoriaeth iddo—pa flaenoriaeth a roddodd yr ymddiriedolaethau i ailysgrifennu manylebau. I nifer ohonynt, ni fydd eu hysbytai wedi newid ers cryn amser. Yn amlwg, pan geir meysydd newydd, bydd yn rhaid ailysgrifennu manylebau, felly efallai fod rhai wedi bod yn fwy ffodus nag eraill. Fodd bynnag, gyda'r cynnydd mewn heintiau, a chyda'r sylw sydd wedi'i roi ar y maes, byddant i gyd yn amlwg yn cael eu hailysgrifennu yn ystod y flwyddyn nesaf, os nad ydynt yn newydd sbon ac yn

cydymffurfio â'r arferion gorau.

[98] **Janet Davies:** Yes, because the report does talk about changes to the soft furnishings or the floor coverings and so on, and it seems to me that most hospitals will have changed those within 10 years. I am also very concerned that, over the years, and after taking evidence on different issues within the NHS, we have been told quite a number of times that various issues have not been seen as a priority. I think that I may have raised that issue before, namely what are the priorities in the health service, over and above day-to-day crisis management. It is something that I get quite concerned about. I think that that is more of a statement than a question possibly. How are you going to ensure that these hospitals update their cleaning specifications regularly? Will you be going back to them now to ensure that this is happening?

[98] **Janet Davies:** Ie, oherwydd mae'r adroddiad yn sôn am newidiadau i'r dodrefn meddal neu'r gorchuddion llawr ac ati, ac ymddengys i mi y bydd y mwyafrif o ysbytai wedi newid y rheini o fewn 10 mlynedd. Yr wyf hefyd yn bryderus iawn, dros y blynyddoedd, ac ar ôl cymryd tystiolaeth ar wahanol faterion o fewn y GIG, ein bod wedi clywed sawl gwaith nad yw materion amrywiol wedi'u hystyried fel blaenoriaeth. Credaf fy mod wedi trafod y mater hwnnw o'r blaen, sef yn bennaf beth yw'r blaenoriaethau yn y gwasanaeth iechyd, ar wahân i reoli argyfwng o ddydd i ddydd. Mae'n rhywbeth yr wyf yn eithaf pryderus yn ei gylch. Credaf ei fod yn fwy o ddatganiad na chwestiwn o bosibl. Sut yr ydych am sicrhau bod yr ysbytai hyn yn diweddaru eu manylebau glanhau yn rheolaidd? A fyddwch yn mynd yn ôl atynt yn awr i sicrhau bod hyn yn digwydd?

**Ms Lloyd:** Yes. With the standards being rolled out, and with the six-month review, we will be very clear about what specifications really need to be uprated first because they will have to risk-assess their environment.

**Ms Lloyd:** Byddaf. Gyda'r safonau'n cael eu cyflwyno, a chyda'r adolygiad chwe mis, byddwn yn glir iawn ynglŷn â pha fanylebau sydd wir angen eu diweddaru gyntaf oherwydd y bydd yn rhaid iddynt asesu risg eu hamgylchedd.

[99] **Janet Davies:** Right, thank you. Alun, you have some questions?

[99] **Janet Davies:** Iawn, diolch. Alun, mae gennych gwestiynau?

[100] **Alun Cairns:** Thank you, Cadeirydd. My questions build on those that you have just asked and I will refer specifically to the budgets that are built on the specifications. Eleven out of the 17 acute hospitals calculate their cleaning service budget from out-of-date specifications. Are you satisfied that sufficient resources are being invested in hospital cleanliness?

[100] **Alun Cairns:** Diolch, Gadeirydd. Mae fy nghwestiynau'n ychwanegu at y rheini yr ydych newydd eu gofyn a byddaf yn cyfeirio'n benodol at y cyllidebau sy'n seiliedig ar y manylebau. Mae 11 o'r 17 ysbyty aciwt yn cyfrifo eu cyllideb gwasanaeth glanhau o fanylebau sydd wedi dyddio. A ydych yn fodlon bod adnoddau digonol yn cael eu buddsoddi yng nglanweithdra ysbytai?

**Ms Lloyd:** Until I have those updated specifications, which are costed, I cannot give you an answer to that. What we have got to do is to review very carefully the funding available to them once those specifications have been costed.

**Ms Lloyd:** Tan imi weld y manylebau diweddaraf hynny, gyda'u prisiau wedi'u pennu, ni allaf roi ateb i chi ar hynny. Yr hyn sydd yn rhaid i ni ei wneud yw adolygu'r cyllid sydd ar gael iddynt yn ofalus iawn ar ôl pennu prisiau'r manylebau hynny.

[101] **Alun Cairns:** Can I then refer you to case study H on page 23, which shows a hospital that has recently reviewed its

[101] **Alun Cairns:** A gaf fi felly eich cyfeirio at astudiaeth achos H ar dudalen 23, sy'n dangos ysbyty a adolygodd ei

specifications? When it then analysed the costing of that, it came up with a shortfall of £650,000 in the cleaning budget. How should the hospital reconcile that?

fanylebau'n ddiweddar? Pan ddadansoddodd gostau hynny yn ddiweddarach, dangosodd ddiffyg ariannol o £650,000 yn y gyllideb lanhau. Sut y dylai'r ysbyty gysoni hynny?

**Ms Lloyd:** I think that that is very much an issue of the cleaning culture. The LHBs will be commissioning care from hospitals like the Princess of Wales Hospital in the future. They will know what environmental standards will need to be attained in the hospitals. It will be a discussion between them and those hospitals about the priority that they accord to an improvement in a specification if it is not being met at the moment.

**Ms Lloyd:** Credaf fod hynny'n fater o ddiwylliant glanhau. Bydd y byrddau iechyd lleol yn comisiynu gofal o ysbytai fel Ysbyty Tywysoges Cymru yn y dyfodol. Byddant yn gwybod pa safonau amgylcheddol fydd angen eu bodloni yn yr ysbytai. Trafodaeth rhyngddynt a'r ysbytai hynny fydd hon am y flaenoriaeth y byddant yn ei rhoi i wella manyleb os nad yw'n cael ei bodloni ar hyn o bryd.

[102] **Alun Cairns:** So how are you providing the resources, or what resources are being provided? If, after the review of the specifications comes out, the example in case study H of the Princess of Wales Hospital is typical everywhere else, the need for additional resources will be massive when you multiply that 17 times, or at least the potential is that it will be 17 times greater. From where should they fund the increased requirement in funding?

[102] **Alun Cairns:** Felly sut yr ydych yn darparu'r adnoddau, neu pa adnoddau a ddarperir? Os, ar ôl cyhoeddi adolygiad y manylebau, yw'r enghraifft yn astudiaeth achos H o Ysbyty Tywysoges Cymru yn nodweddiadol o bob man arall, bydd angen dybryd am adnoddau ychwanegol ar ôl lluosi hynny 17 o weithiau, neu o leiaf mae posibilrwydd y bydd 17 gwaith yn fwy. O ble y dylent gyllido'r gofynion cyllid cynyddol?

**Ms Lloyd:** That is a discussion that I and my regional directors will have with the local health boards in terms of the priorities that need to be met within the NHS in Wales because they do get an uplift every year and it is a question of how that is applied.

**Ms Lloyd:** Mae honno'n drafodaeth y byddaf i a'm cyfarwyddwyr rhanbarthol yn ei chynnal gyda'r byrddau iechyd lleol am y blaenoriaethau sydd angen eu bodloni o fewn y GIG yng Nghymru oherwydd eu bod yn cael cynnydd bob blwyddyn ac mae'n fater o sut y byddant yn defnyddio hwnnw.

[103] **Alun Cairns:** Okay. Thank you.

[103] **Alun Cairns:** Iawn. Diolch.

[104] **Janet Davies:** Christine, you have some questions?

[104] **Janet Davies:** Christine, mae gennych gwestiynau?

[105] **Christine Gwyther:** Yes. I would like to try, if possible, to tease out to what extent our trusts are anticipating the unexpected. I will take you back to paragraph 3.2 in the document, which states that many hospitals cannot meet their own minimum standards of cleanliness. I think that it states that eight out of the 11 acute hospitals that were visited stated that they were not meeting their own standards. So that I can be clear, could you tell me whether the three hospitals that are meeting the standards are those where infection control teams are working in

[105] **Christine Gwyther:** Oes. Hoffwn geisio, os yw hynny'n bosibl, weld i ba raddau y mae ein hymddiriedolaethau yn rhagweld yr annisgwyl. Yr wyf am eich cyfeirio'n ôl at baragraff 3.2 yn y ddogfen, sy'n nodi na all nifer o ysbytai fodloni eu safonau glanweithdra gofynnol eu hunain. Credaf ei fod yn nodi bod wyth o'r 11 ysbyty aciwt yr ymwelwyd â hwy yn datgan nad oeddent yn bodloni eu safonau eu hunain. Er mwyn imi allu bod yn glir, a allwch ddweud wrthyf ai'r tri ysbyty sy'n bodloni eu safonau yw'r rhai hynny sydd â thimau rheoli

collaboration with cleaning services? I think that that would help me to understand where the problem might lie. Could you tell me how they tackle the problems of unforeseen cleaning such as spillages or emergency barrier rooms; that relates to the infection control question that was asked by Mick Bates.

heintiau yn cydweithio gyda'r gwasanaethau glanhau? Credaf y byddai hynny o bosibl yn fy helpu i ddeall ble mae gwreiddyn y broblem. A allwch ddweud wrthyf sut y maent yn mynd i'r afael â'r problemau glanhau annisgwyl megis gollyngiadau neu ystafelloedd rhwystr argyfwng; mae hynny'n gysylltiedig â'r cwestiwn ar reoli heintiau a ofynnwyd gan Mick Bates.

**Ms Lloyd:** I do not know which three are not complying with this. I will not know that until we place these standards and they report back formally.

**Ms Lloyd:** Nid wyf yn gwybod pa dri a fethodd â chydymffurfio â hyn. Ni fyddaf yn gwybod hynny tan i ni roi'r safonau hyn ar waith a'u bod yn adrodd yn ôl yn ffurfiol.

[106] **Christine Gwyther:** I think that there are three that are meeting the standards, and eight that are not.

[106] **Christine Gwyther:** Credaf fod tri sydd yn bodloni'r safonau, ac wyth sydd yn methu.

**Ms Lloyd:** Three that are? I do not know which ones they are. In terms of people continually failing to meet the standards, it depends to what extent that is and how they have risk-assessed the consequences of failing to meet the standards. I have to re-stress that this is an issue for trust management. I am not directly operationally managing the NHS trusts in Wales on a day-to-day basis. The trusts' management are charged with doing that on behalf of their communities. I would expect them to properly risk assess any failure to meet their standards whether cleaning or any other clinical standards. They will then be held to account for their risk assessment, whether it is wrong or right.

**Ms Lloyd:** Tri sydd yn eu bodloni? Nid wyf yn gwybod pa rai ydynt. O ran pobl yn methu'n barhaus â bodloni'r safonau, mae'n dibynnu i ba raddau y mae hynny'n digwydd a sut y maent wedi asesu'r risg yn sgîl methu â bodloni'r safonau. Mae'n rhaid imi ailbwysleisio bod hyn yn fater i reolwyr ymddiriedolaethau. Nid wyf yn rheoli gwaith ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru'n uniongyrchol o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb rheolwyr yr ymddiriedolaeth yw hynny ar ran eu cymunedau. Byddwn yn disgwyl iddynt asesu risg unrhyw achos o fethu â bodloni eu safonau boed yn safonau glanhau neu unrhyw safonau clinigol eraill. Byddant wedyn yn atebol am eu hasesiad risg, boed yn anghywir neu'n gywir.

In terms of spillages, this is one of the things that causes me the greatest concern because too often we get so much feedback from the general public and staff that areas appear unwholesome because there is dried blood on the floor or patients will say that there has been a spillage for the last three hours and nobody has come to clean it up. Personally, this is one of the areas that I will be chasing up with the greatest diligence with the trust staff management because it cannot give confidence to patients and it can be a hazard as well, and a difficult hazard to deal with. Some places have managed very well in dealing with spillages, in that they have proper processes in place. However, that good practice must be spread out, because I think that it is one of the more disturbing

O ran gollyngiadau, dyma un o'r pethau sy'n achosi'r pryder mwyaf imi oherwydd yn rhy aml yr ydym yn derbyn cymaint o ymateb gan y cyhoedd a staff bod mannau yn ymddangos yn afiach oherwydd bod gwaed wedi sychu ar lawr neu bydd cleifion yn dweud bod rhyw hylif wedi'i ollwng ers tair awr ac nad oes neb wedi dod i'w lanhau. Yn bersonol, dyma un o'r meysydd y byddaf yn mynd i'r afael ag ef gyda'r diwydrwydd mwyaf gyda staff rheoli'r ymddiriedolaethau oherwydd na all roi hyder i gleifion a gall fod yn beryglus hefyd, ac yn berygl anodd i fynd i'r afael ag ef. Mae rhai lleoedd wedi ymdopi'n dda iawn wrth ddelio â gollyngiadau, oherwydd fod ganddynt brosesau iawn ar waith. Fodd bynnag, mae'n rhaid lledaenu'r arferion da hynny, oherwydd

parts of a failure to address cleaning standards.

fy mod yn credu ei fod yn un o'r elfennau sy'n peri'r pryder mwyaf o ran methu â bodloni safonau glanhau.

[107] **Christine Gwyther:** Coming back to the emergency barrier rooms issue, would you say that there should be flexibility built into the cleaning specifications as part of that risk assessment and should rapid response cleaning teams be introduced, perhaps?

[107] **Christine Gwyther:** Gan ddychwelyd at ystafelloedd rhwystr argyfwng, a fyddech yn dweud bod angen hyblygrwydd yn y manylebau glanhau fel rhan o'r asesiadau risg hynny ac a ddylid cyflwyno timau glanhau ymateb brys, o bosibl?

**Ms Lloyd:** Yes. In terms of the specifications, that flexibility is built in and we do have to ensure that emergency barrier rooms can be thoroughly cleaned before any other patient goes in them or they cease to be a requirement for barrier nursing. Some of these rapid response teams have been very effective at doing that. However, again, it is an issue of ward management. There has to be control over that environment so that risk is absolutely minimised.

**Ms Lloyd:** Dylid. O ran y manylebau, mae'r hyblygrwydd hwnnw yn rhan ohonynt ac mae'n rhaid i ni sicrhau y gellir glanhau ystafelloedd rhwystr argyfwng yn drylwyr cyn i unrhyw gleifion eraill fynd i mewn iddynt neu ni fyddant yn un o ofynion nyrsio rhwystr. Bu rhai o'r timau ymateb brys hyn yn effeithiol iawn wrth wneud hynny. Fodd bynnag, eto, mae'n fater o reoli wardiau. Mae'n rhaid rheoli'r amgylchedd hwnnw er mwyn lleihau'r risg yn llwyr.

[108] **Christine Gwyther:** Finally, will those risk assessment reviews, when they are carried out, be part of your performance management systems?

[108] **Christine Gwyther:** Yn olaf, a fydd yr adolygiadau asesu risg hynny, pan fyddant ar y gweill, yn rhan o'ch system reoli perfformiad?

**Ms Lloyd:** Yes.

**Ms Lloyd:** Byddant.

[109] **Janet Davies:** Alun, you have some questions?

[109] **Janet Davies:** Alun, mae gennych gwestiynau?

[110] **Alun Cairns:** Yes, thank you, Chair. Before I move forward to page 25, I was a bit troubled again by one of your responses to Christine Gwyther, Ms Lloyd, in relation to repeating the point that you made earlier about responsibility lying with the trust management. Again, if the trust management fails to meet its obligations in terms of the specifications, setting the right priorities and so on, someone needs to act. Do you think that there needs to be clarification, even if it is only for me personally, as to where the accountability lines are, because I am still not clear from the answers that you have given?

[110] **Alun Cairns:** Oes, diolch, Gadeirydd. Cyn imi symud ymlaen at dudalen 25, yr oeddwn yn eithaf pryderus eto gydag un o'ch ymatebion i Christine Gwyther, Ms Lloyd, o ran ailbwysleisio'r pwynt y gwnaethoch yn gynharach bod y cyfrifoldeb yn nwylo rheolwyr yr ymddiriedolaeth. Eto, os yw rheolwyr yr ymddiriedolaeth yn methu â bodloni'r gofynion o ran y manylebau, pennu'r blaenoriaethau cywir ac ati, mae'n rhaid i rywun weithredu. A ydych yn credu bod angen eglurhad, hyd yn oed os yw imi yn unig, ynglŷn â'r drefn gyfrifoldeb, oherwydd nid wyf yn glir o hyd o'r atebion yr ydych wedi'u rhoi?

**Ms Lloyd:** Trust management is now accountable to me. It was not in the past.

**Ms Lloyd:** Mae rheolwyr yr ymddiriedolaethau bellach yn atebol i mi. Nid oeddent yn y gorffennol.

[111] **Alun Cairns:** That is the answer that you gave earlier. However, you still come

[111] **Alun Cairns:** Dyna'r ateb y bu i chi ei roi yn gynharach. Fodd bynnag, yr ydych yn

back to say that the responsibility lies with the trust management. In reality, the ultimate responsibility really lies with you and then the Minister, surely?

dal i ddod yn ôl i ddweud mai rheolwyr yr ymddiriedolaethau sy'n gyfrifol. Mewn gwirionedd, eich cyfrifoldeb chi yw hynny yn y pen draw ac yna'r Gweinidog, does bosibl?

**Ms Lloyd:** Yes, that is how it is. However, the day-to-day management responsibility has to be vested in trust management. That is what it is charged to do. Ultimately, it will be my responsibility, but I have delegated day-to-day management to the trusts.

**Ms Lloyd:** Ie, fel yna y mae hi. Fodd bynnag, mae'n rhaid rhoi'r cyfrifoldeb o reoli o ddydd i ddydd yn nwylo rheolwyr yr ymddiriedolaethau. Dyna eu cyfrifoldeb. Yn y pen draw, fy nghyfrifoldeb i ydyw, ond yr wyf wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb rheoli o ddydd i ddydd i'r ymddiriedolaethau.

[112] **Alun Cairns:** Fine, I accept that.

[112] **Alun Cairns:** Iawn, yr wyf yn derbyn hynny.

[113] **Leighton Andrews:** May I come in here?

[113] **Leighton Andrews:** A gaf fi gyfrannu yma?

[114] **Janet Davies:** Yes.

[114] **Janet Davies:** Cewch.

[115] **Leighton Andrews:** It is confusing at one level, though. Trying to understand the difference in the level of accountability from the trust management to you and the trust management to its own board is one of the areas here, I think. As you rightly said earlier, the trust management is accountable to its board and it is accountable theoretically—I think that it is sometimes a theoretical accountability—to its community. One of you might say that your role perhaps, and the Minister's role, is to lay down national standards and to ensure that they are being adhered to. However, there is a level at which the board has to ensure locally that the trust is also doing that. To what extent are you, therefore, involved in ensuring that board members themselves understand their own responsibilities in this area?

[115] **Leighton Andrews:** Fodd bynnag, mae'n ddryslyd ar un lefel. Ceisio deall lefelau gwahanol yr atebolrwydd o reolwyr yr ymddiriedolaethau i chi a rheolwyr yr ymddiriedolaethau i'w bwrddau eu hunain yw un o'r meysydd yma, yn fy marn i. Yr oeddech yn llygad eich lle pan y bu i chi ddweud yn gynharach bod rheolwyr yr ymddiriedolaeth yn atebol i'w bwrdd a'r bwrdd yn atebol yn ddamcaniaethol—credaf mai atebolrwydd damcaniaethol yw hyn ar brydiau—i'w gymuned. Efallai y gallai un ohonoch ddweud mai eich rôl o bosibl, a rôl y Gweinidog, yw pennu safonau cenedlaethol a sicrhau eu bod yn cael eu cadw. Fodd bynnag, mae lefel lle mae'r bwrdd yn gorfod sicrhau'n lleol bod yr ymddiriedolaeth yn gwneud hynny. I ba raddau yr ydych, felly, yn cyfrannu at sicrhau bod aelodau'r bwrdd eu hunain yn deall eu cyfrifoldebau eu hunain yn y maes hwn?

**Ms Lloyd:** In terms of cleaning, or generally?

**Ms Lloyd:** O ran glanhau, neu yn gyffredinol?

[116] **Leighton Andrews:** Cleaning particularly.

[116] **Leighton Andrews:** Glanhau'n benodol.

**Ms Lloyd:** To step back, generally, there is an induction programme anyway for all board members so that they can understand their responsibilities well. The trust chair is held to account in a performance review held

**Ms Lloyd:** I gamu'n ôl, yn gyffredinol, mae rhaglen gyflwyno beth bynnag ar gyfer pob aelod o'r bwrdd er mwyn iddynt allu deall eu cyfrifoldebau'n well. Cadeirydd yr ymddiriedolaeth sy'n atebol mewn adolygiad

by the Minister on an annual basis anyway, as is now the chief executive whom I hold to account. So, that covers that dual accountability. In terms of the cleaning specifications, we have required trust boards to ensure that one of their executive directors holds a portfolio for this area and that there are regular reports provided to the trust boards on the standards that are being achieved. That will be underpinned by these new standards, where reports on that which is to be included in the results of the balanced scorecards are regularly provided to the trust boards. As the regional offices are monitoring trusts on a quarterly basis now with this new performance management system, then, on a quarterly basis, the results will be published and will go to the trust boards.

